



Social Mobility
Commission



Cenhedlaeth Arloesi: camau nesaf ar gyfer symudedd cymdeithasol

2024



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.socialmobilitycommission.org

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at:

Comisiwn Symudedd Cymdeithasol
1 Horse Guards Road,
Llundain,
SW1A 2HQ.

E-bost
contact@socialmobilitycommission.gov.uk

Ynglŷn â'r Comisiwn

Mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol yn gorff cyhoeddus ymgynghorol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Cyfleoedd Bywyd 2010 fel y'i haddaswyd gan Ddeddf Diwygio Lles a Gwaith 2016. Mae dyletswydd arno i asesu cynnydd o ran gwella symudedd cymdeithasol yn y DU a hyrwyddo symudedd cymdeithasol yn Lloegr. Mae Bwrdd y Comisiwn yn cynnwys:

Cadeirydd

Alun Francis OBE, Prif Weithredwr Coleg Blackpool and The Fylde.

Dirprwy Gadeiryddion

Resham Kotecha, Pennaeth Polisi yn y Sefydliad Data Agored.

Rob Wilson, Cadeirydd WheelPower – British Wheelchair Sport.

Comisiynwyr

Dr Raghbir Ali, Uwch Gydymaith Ymchwil Glinigol yn Uned Epidemioleg MRC ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Ryan Henson, Prif Swyddog Gweithredol y Glymblaid ar gyfer Ffyniant Byd-eang.

Parminder Kohli, Cadeirydd Shell UK Ltd ac Is-lywydd Gweithredol Cynaliadwyedd a Charbon Grŵp Shell.

Y Farwnes Anrhydeddus Tina Stowell o Beeston MBE.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	5
Rhagair	6
Cyflwyniad	13
Beth yw symudedd cymdeithasol?	15
Symud ymlaen	20
Ymagwedd arfaethedig newydd y SMC	27
Cyfleoedd tyfu	30
Datblygu talent	34
Meithrin talent	45
Y ffordd ymlaen	54

Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymagwedd hirdymor y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol at wella symudedd cymdeithasol yn y DU. Mae'n dadlau:

Bod polisi symudedd cymdeithasol wedi canolbwyntio'n anghymesur ac yn rhy gul, fel arfer, ar fynediad pobl ifanc difreintiedig i'r brifysgol a gyrfaedd proffesiynol.

Mae angen ymagwedd ehangach, a phwyslais ar dwf economaidd ac arloesi - sy'n hanfodol os ydym yn ceisio cynyddu cyfle i bawb.

Mae angen sylfaen dystiolaeth gryfach arnom, yn enwedig mewn perthynas â pha ymyriadau polisi sy'n gweithio, ble a pham.

Mae'r cynnydd mewn mynediad i brifysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf i'w groesawu, ond dylai fynd ochr yn ochr ag ymagwedd fwy cydlynol ac ar sail gwell dystiolaeth, at addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau.

Yn benodol, dylem roi llawer mwy o sylw i sut y gallwn gynorthwyo pobl ifanc orau nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a'r rheini sydd heb unrhyw gymwysterau o gwbl, ac sy'n llawer mwy tebygol o fod yn economaidd anweithredol.

Dylem symud i ffwrdd oddi wrth ymagwedd "un maint i bawb". Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod symudedd cymdeithasol a chyfle yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd gwahanol a bod angen strategaethau wedi'u sylfaenu ar le i ddeall a mynd i'r afael â heriau lleol.

Mae cytundebau datganoli presennol ac sydd i ddod yn cynnig cyfle i ddatblygu ymagwedd gydlynol, yn enwedig cysylltu cyflogaeth a sgiliau â'i gilydd.

Mae angen i ni ystyried rôl daearyddiaeth mewn perfformiad addysgol, a datblygu dealltwriaeth lawer mwy soffistigedig o anfantais na'r rhaniad deuaidd presennol yn seiliedig ar gymhwyster am ginio ysgol am ddim.

Mae angen dealltwriaeth fwy cynhwysfawr arnom hefyd o sut i gynorthwyo teuluoedd difreintiedig yn effeithiol, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynnar eu plant.

Mae'r SMC wedi ymrwymo i raglen eang o ymchwil yn y meysydd hyn, gan gynnwys prosiect ar rôl yr economi wrth wella symudedd cymdeithasol a chyfres o astudiaethau dwfn i ardaloedd â symudedd cymdeithasol uchel ac isel.



Rhagair

Alun Francis OBE,
Cadeirydd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (SMC) State of the Nation 2024 – y deuddegfed a'r diweddaraf o'r adroddiadau blynyddol mae'n gyfreithiol ofynnol i'r SMC eu cyhoeddi am gynnydd symudedd cymdeithasol yn y DU.¹ Yn ogystal â State of the Nation, mae'r SMC wedi cyhoeddi adroddiadau, papurau a darnau meddwl niferus ar bynciau sy'n amrywio o werth cymwysterau yn y farchnad lafur ac effeithiau tyfu i fyny mewn ardal ddifreintiedig i'r ymarferion data sydd eu hangen i wella ein dealltwriaeth o symudedd cymdeithasol.²

Yn awr, gan bwyso ar ein cyhoeddiadau diweddar, dyma amlinellu'n dehongliad o'r dystiolaeth Mae pethau sy'n rhwystro cyfle yn ein gwlad ac maen nhw'n golygu bod gormod o bobl yn methu â chyflawni eu potensial, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Yn rhy aml, mae polisïau sydd wedi'u cynllunio i wella symudedd cymdeithasol, wedi cael eu seilio ar naratifau nad ydynt o gymorth. Maen nhw'n cyflwyno mynediad at gyfleoedd ar ffurf ddeuaidd, gan greu gwawdlun o 'anfantais' a 'dim anfantais'.

Mae'r fath agweddau yn ddealladwy weithiau, oherwydd nad yw'r data sydd eu hangen arnom i fesur ac asesu symudedd cymdeithasol ar gael yn hawdd bob amser. Ond mae'n bwysig herio meddwl simplistig. Mae'r rheini sydd wedi'u geni i mewn i amgylchiadau anodd, neu sy'n profi heriau eraill sy'n eu hatal rhag cyflawni'u potensial, yn haeddu gwybod

y gall llawer fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael, cyflawni a 'symud i fyny'.

Er enghraifft, yn 2022, ymhlith y rheini o gefndir dosbarth gweithiol is yn y DU, gwelodd tua 70% o'r rhai rhwng 25 a 64 oed naill ai symudedd byr neu amrediad hir am i fyny, a gwelodd 32% symudedd amrediad hir am i fyny i'r dosbarthiadau proffesiynol. Mae'n wir, wrth gwrs, fod y cyfleoedd cymaradwy (neu gymharol) o hyn yn digwydd yn wahanol, yn dibynnu ar y grŵp economaidd cymdeithasol mae rhywun yn tarddu ohono. Mae'r rheini sy'n cael eu geni i rieni mewn galwedigaethau proffesiynol uwch yn fwy tebygol o gael mathau tebyg o gyflogaeth. Ond nid yw hyn yn golygu bod braint yn esgor ar fraint bob amser. Mewn gwirionedd, gwelodd 67% o bobl o gefndiroedd proffesiynol uwch symudedd am i lawr i mewn i alwedigaethau proffesiynol is (32%), canolig (17%) neu ddosbarth gweithiol (18%).³

Mae'n bwysig, felly, peidio â meddwl am gyfleoedd a symudedd cymdeithasol yn nhermau anhyblyg y 'breintiedig' a'r 'difreintiedig'. Pan ystyriwn gefndir economaidd cymdeithasol, y ffordd orau o ddeall hyn yw sbectrwm, â rhai gwahaniaethau eithafol ar y brig a'r gwaelod, ond set fwy graddedig o wahaniaethau yn y canol. Mae gwahaniaethau sylweddol mewn canlyniadau hefyd o fewn, yn ogystal â rhwng, pobl o gefndiroedd economaidd cymdeithasol ymddangosiadol debyg.

1 Mae gan y SMC ddyletswydd statudol i asesu cynnydd o ran gwella symudedd cymdeithasol yn y DU ac i hyrwyddo symudedd cymdeithasol yn Lloegr. Am y rheswm hwn, wrth drafod meysydd (megis addysg) lle mae systemau yn wahanol rhwng pedair gwlad y DU, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Loegr.

2 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, ['Ein hymchwil'](#). Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

3 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, ['State of the Nation 2023: people and places'](#), 2023. Cyhoeddwyd yn GOV.UK



Yn rhy aml, rhagdybir bod y berthynas rhwng tarddiadau a chyrchfannau economaidd gymdeithasol yn un benderfyniadol, ond ni all hynny fod yn wir, neu ni fyddem yn sylwi ar y symudiad am i fyny ac am i lawr y mae'r data yn ei ddisgrifio. Mae ffactorau eraill, megis rhyw, ethnigrwydd ac anabledd hefyd yn chwarae rhan, ond felly hefyd y gwna ffactorau megis daearyddiaeth, lle, cymdogaeth a theulu hefyd. Ac mae bron yn sicr fod rôl i ddau fater y mae'r llenyddiaeth am bolisiau yn gymharol dawel amdanynt: galluoedd (o fathau gwahanol) a diwylliant.

Rhan o'r broblem yw nad yw'r data'n egluro ond hyn a hyn. Rhan o'r rheswm dros yw diffyg y data perthnasol sydd ar gael yn y DU, fel yr amlygwyd yn ein hadroddiad yn 2022, Data ar gyfer Symudedd. Cymdeithasol. Fodd bynnag, rheswm arall yw nad yw patrymau ystadegol cyffredinol yn trosi'n syml i naratifau unigol. Yn anaml mae bodau dynol go iawn yn adlewyrchu'r cyfartaledd. A phan ragdybiwn eu bod nhw, mae'n mynd yn anos gwybod a yw ymyriadau ymarferol wedi cael eu targedu at y bobl gywir. Mae'n

ymddangos bod bron pob un o'n hymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â bylchau anfantais, o raglenni blynyddoedd cynnar a Phremiwm Disgyblion i ddulliau derbyn wedi'u cyd-destunoli a dulliau recriwtio wedi'u cyd-destunoli, yn taro yn erbyn problemau o'r fath hon. Mae'r data yn dweud wrthym fod y 'difreintiedig', sut bynnag y'u diffinnir, yn cynnwys rhai sy'n mynd i gael trafferth a rhai sy'n gwneud yn gymharol dda. Ond nid yw'n dweud wrthym sut i nodi'r gwahaniaeth.

Yn union fel y mae problemau wrth nodi'r 'difreintiedig go iawn', mae problemau wrth nodi'r rheini y mae eu cyflawniadau yn deillio'n gyfan gwbl o'u braint. Mae'n debyg iawn fod pobl felly i'w cael, ac mae'r syniad eu bod, yn sicr yn gyffredin iawn ym myd polisi symudedd cymdeithasol. Ond mae'n anodd bod yn benodol am bwy ydynt yn union. Nid yw'r naratif deuaidd ynghylch addysg breifat o'i chymharu ag addysg y wladwriaeth yn gweithio mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd bod braint sylweddol o fewn elfennau o sector y wladwriaeth.

Yn aml ystyrir mai mesur galwedigaeth rhieni plant yn 14 oed yw'r dangosydd mwyaf dibynadwy o gefndir economaidd gymdeithasol, ond mae hyn yn rhagdybio llawer mewn byd lle mae teuluoedd wedi newid fel y mae galwedigaethau hwythau. Ac er y gallai data eraill, megis y Mynegai Amddifadedd Lluosog, helpu o ran deall patrymau cyffredinol, mae'r un broblem yn bodoli oherwydd nad yw naratifau unigol yn cael eu hystyried yn y metrigau hyn. Mae canlyniadau gwahanol hefyd o fewn grwpiau 'breintiedig'. O ystyried pwysigrwydd sgiliau uchel a gwybodaeth soffistigedig mewn economi fodern, mae'n bwysig deall sut mae'r rhain yn cael eu meithrin - ac ni fydd hyn yn cael ei gyflawni os 'braint' yw'r unig ateb.

Yn ddiamheuol mae ffyrdd o gyfrif am arlliwiau a chymhlethdodau symudedd cymdeithasol, heb ddrysu a mynd ar goll yn y manylion. Yr hyn sy'n allweddol i bolisi da yw defnyddio'r data i nodi patrymau cyffredinol, ond i ddehongli'r canfyddiadau yn ofalus. Mae hyn yn golygu bod yn ymwybodol o gryfderau a chyfyngiadau'r data, a bod yn sensitif i'r cyd-destun cymdeithasol ac economaidd go iawn lle gwelir bywydau go iawn.

Yn aml ystyrir mai mesur galwedigaeth rhieni plant yn 14 oed yw'r dangosydd mwyaf dibynadwy o gefndir economaidd gymdeithasol, ond mae hyn yn rhagdybio llawer mewn byd lle mae teuluoedd wedi newid fel y mae galwedigaethau hwythau.



Mae'n bwysig peidio â meddwl am 'broblem' symudedd cymdeithasol yn her un maint i bawb. Gellid dadlau bod polisi symudedd cymdeithasol - ynghyd â'r system addysg ar lawer agwedd - wedi eu llunio ar ddelw 'y proffesiynau' a'r llwybrau i mewn i'r rhain. Er bod hyn yn ddealladwy, o ystyried rheolaeth galwedigaethau 'proffesiynol uwch' o ran cyflogaeth elît, yn y pen draw mae'n diffinio ein her symudedd cymdeithasol - a chydag ef dalentau cyfoethog ac amrywiol ein pobl - mewn ffordd gul iawn.

Agwedd 'y dethol rai' yw'r enw a roddwn ar hon, un sy'n anelu at newid canlyniadau symudedd cymdeithasol trwy gynyddu'r gyfran o weithwyr proffesiynol elît o darddiadau cyffredin. Fel arfer, mae hyn ar ffurf canfod pobl ifanc academiaidd abl ond difreintiedig, a'u paratoi ar gyfer mynediad i brifysgolion elît a galwedigaethau elît. Mae ymyriadau ar ffurf hyfforddi, mentora a hyfforddiant ychwanegol, wedi'u cyfuno â newidiadau i ofynion mynediad er mwyn 'cyd-destunoli' ar gyfer anfantais. Er y gall y fath ymagweddau fod o gymorth i rai unigolion, fel arfer maent ar raddfa fach, ac nid ydynt yn cael effaith amlwg ar symudedd cymdeithasol yn ei gyfanrwydd.



Os ydym am i symudedd cymdeithasol olygu rhywbeth y tu hwnt i'r 'dethol rai', mae'n bwysig ailgyfeirio polisi symudedd cymdeithasol er mwyn iddo fynd i'r afael yn fwy uniongyrchol â'r gwir bethau sy'n rhwystro cyfle ac sy'n nodweddu ein hoes. Rydym wedi nodi pedwar 'mater o bwys' y mae angen mynd i'r afael â nhw. Y rhain yw'r arafu yng nghyfradd twf mewn galwedigaethau lefel uwch; problemau'r bobl a'r lleoedd sydd 'wedi'u gadael ar ôl'; anghydraddoldebau rhanbarthol a daearyddol; a'r gostyngiad mewn cyfleoedd i oedolion ifanc heddiw o'u cymharu â'u rhieni. Mae pob un o'r rhain yn tanseilio hyder bod ein system economaidd a chymdeithasol yn gallu creu cyfleoedd i bawb, ac mae pob un yn gofyn i ni feddwl yn wahanol am symudedd cymdeithasol.

Mae pob un o'r heriau hyn yn gysylltiedig â'r angen am fath gwahanol o economi, sydd ag amrywiaeth helaethach o lawer o gyfleoedd, a llawer mwy o ffyrdd o fanteisio arnynt. Mae angen economi gryfach, fwy arloesol arnom, gan greu cyfoeth a chyfle trwy

well cynhyrchiant. Wrth ganol arloesi mae cynhyrchu rhagor o swyddi o ansawdd da, medrus ac sy'n talu'n dda. Mae ehangu cyfleoedd yn y proffesiynau (a herio rhwystrau rhag mynediad i mewn i'r proffesiynau hynny) yn bwysig, ond yn rhan o'r stori yn unig. Ar gyfer newid go iawn mae angen menter, entrepreneuriaeth ac amrediad ehangach o sgiliau a gwybodaeth dechnegol, ar draws amrediad eang o sectorau economaidd.

Mae hwn yn bwynt pwysig, oherwydd y mynediad at y proffesiynau mae'r prifysgolion elít yn ei ddarparu, i raddau helaeth, sy'n pennu eu rôl aruthrol o bwysig wrth ddyrannu cyfleoedd. Ond mae economi arloesol yn herio'r ffyrdd derbyniedig o wneud pethau, oherwydd ei bod yn ffynnu ar y tarfu sy'n gysylltiedig â'r heriau newydd sy'n cyrraedd ac sy'n dadleoli'r elitau sefydledig. Fe wnaethom gynhyrchu darn meddwl ar arloesi a symudedd cymdeithasol a ddisgrifiodd y broses hon.⁴ Mae angen i ni yn awr hyrwyddo polisiâu fydd yn ei gynorthwyo'n ymarferol.

4 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Innovation and social mobility: two sides of the same coin](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY. INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

Yr hyn mae SMC yn ceisio ei archwilio - a rhywbeth sydd wedi bod yn gwbl absennol o bolisi, yn blwmp ac yn blaen - yw esboniad cynhwysfawr ar gyfer y rhyngchwarae rhwng cyfle economaidd cyfyngedig, a'r patrwm o gyrhaeddiad addysgol cyson wan sy'n amlwg mewn cymaint o leoedd, yn enwedig trefi ôl-ddiwydiannol a glan y môr ynghyd ag ardaloedd gwledig.

Nid yw gwell symudedd cymdeithasol, fodd bynnag, yn deillio o elitau mwy cystadleuol ac agored yn unig. Mae'n dibynnu hefyd ar fuddion y broses sy'n ymestyn ar draws cymdeithas ac sy'n creu cyfleoedd i eraill. Y broblem fawr yma yw nad yw ein heconomi yn gwneud hyn, gan ei bod wedi'i chanolbwyntio mor uchel ar Lundain a'i chyrion, ac mae'r wlad gyfan wedi'i nodweddu gan anghydraddoldebau rhanbarthol sylweddol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Eto, rydym wedi ysgrifennu am y rhain yn ddiweddar ar ffurf darn meddwl.⁵ Rydym wedi adrodd yn systematig ar bwysigrwydd daearyddiaeth a lle mewn ffurfio cyfle ledled y wlad. Mae llenyddiaeth ehangach mewn economeg sy'n trafod sut a pham mae sectorau a lleoedd penodol yn rheoli economi'r DU, a beth yw goblygiadau hyn ar gyfer y wlad yn ei chyfanrwydd.⁶ Mae'r amser wedi dod i hyrwyddo polisiau fydd yn newid hyn.

Nid yw hyn yn golygu cefnu ar bopeth sydd wedi cael ei gyflawni i wella symudedd cymdeithasol yn y blynyddoedd diweddar. Mae angen i ni fod yn eglurach, a gwerthuso'n gryfach, ynghylch y sylfaen dystiolaeth ar gyfer 'yr hyn sy'n gweithio', ond nid yw hyn yn golygu nad oes dim byd wedi gweithio. Yn y gweithle, er enghraifft, mae rhywfaint o gynnydd aruthrol wedi bod ynghylch y ffordd mae cyflogwyr yn meddwl am recriwtio a datblygu talent. Mae'n pecynnau cymorth cyflogwyr a'n grŵp cynghorol yn dangos bod ymwybyddiaeth helaethach o'r angen i edrych y tu hwnt i'r system 'rhoi arwydd', lle mae cymwysterau o sefydliadau elîf wedi cael eu defnyddio'n draddodiadol yn llaw fer hawdd i nodi ymgeiswyr addas.⁷ Mewn addysg, mae dealltwriaeth gryfach o lawer o'r ymarferion sefydliadol a phedagogiaidd y dylai darparwyr blynyddoedd cynnar, ysgol a choleg eu hyrwyddo i greu'r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer disgyblion difreintiedig. Rydym yn dadlau y dylai'r cynlluniau hyn (ac eraill) barhau, yn amodol ar werthuso o ansawdd gwell, ond nad ydynt, ar eu pennau eu hunain, yn ddigon. Maent yn gweithio o fewn paramedrau'r model economaidd presennol, ond mae angen i ni feithrin y dalent i darfu arno.

Y man lle mae'r sylfaen dystiolaeth ar ei gwannaf, a lle mae effaith y polisi yn ymddangos yn fwyaf cyfyngedig, yw ynghylch sut y gall canlyniadau ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig gael eu gwella. Yr hyn mae SMC yn ceisio ei archwilio - a rhywbeth sydd wedi bod yn gwbl absennol o bolisi, yn blwmp ac yn blaen - yw esboniad cynhwysfawr ar gyfer y rhyngchwarae rhwng cyfle economaidd cyfyngedig, a'r patrwm o gyrhaeddiad addysgol cyson wan sy'n amlwg mewn cymaint o leoedd, yn enwedig trefi ôl-ddiwydiannol a glan y môr ynghyd ag ardaloedd gwledig.

5 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Spatial agglomeration, productivity and inequality](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY. INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

6 Diane Coyle a Jen-Chung Mei, '[Diagnosing the UK productivity slowdown: which sectors matter and why?](#)' 2023. Cyhoeddwyd yn ONLINELIBRARY.WILEY.COM; Jonathan Haskel a Stian Westlake, '[Restarting the future: how to fix the intangible economy](#)', 2022. Cyhoeddwyd gan PRINCETON UNIVERSITY PRESS.

7 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Socio-economic diversity and inclusion: employers' toolkit](#)', 2021. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY. INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

Y gwrthgyferbyniad rhwng ardaloedd lle mae perfformiad addysgol wedi gwella - a Llundain yn llwyddiant disglair - a'r rheini sy'n gaeth mewn cylch cyson o ganlyniadau gwael, yn ein barn ni, yw her addysgol ein cyfnod ni. Mae ein dystiolaeth yn dangos ei bod yn well o lawer bod yn ifanc ac yn ddifreintiedig yn ein prifddinas na bod o gefndir cyfatebol unrhyw le arall yn y wlad. I ryw raddau, diau y gellir esbonio hyn (ac felly ei wella) trwy edrych ar y sefydliadau, ymarferion addysgol a'r amrywiaeth ddemograffig sy'n rhan o hyn, ond nid yw cynlluniau gwella wedi'u sylfaenu ar le megis Parthau Gweithredu Addysg (ar ddiwedd y 1990au/ ar ddechrau'r blynyddoedd 2000) ac Ardaloedd Cyfle (ar ddiwedd y blynyddoedd 2010) wedi cael yr effaith arfaethedig.⁸



Mae'n annhebygol y gellir datblygu datrysiadau tymor hwy heb ystyried ffactorau cymdogaeth, cymuned a theulu. Mae hi yr un mor annhebygol bod y rhain wedi'u cysylltu â strwythur ehangach cyfle, sy'n un economaidd yn y bôn, ac rydym yn ystyried ei fod yn ganolog i wella symudedd cymdeithasol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod economïau arloesol yn darparu cyfleoedd helaethach – gan gynnwys ar gyfer y rheini sydd â'r lleiaf, hyd yn oedd lle mae ganddynt sgiliau cymharol isel.⁹

I grynhoi, mae ein hymagwedd at symudedd cymdeithasol yn cydnabod pwysigrwydd addysg, ysgolion a blynyddoedd cynnar, wrth lunio cyfle a meithrin doniau ein gwlad. Ond rydym yn wahanol o ran y pwyslais a roddwn ar dri pheth: yn gyntaf, pwysigrwydd economi arloesol, ddynamig; yn ail, gwerth hyfforddiant galwedigaethol o ansawdd uchel a chynorthwyo'r rheini nad ydynt mewn hyfforddiant na gwaith o gwbl; ac yn drydydd, rôl cymdogaeth, cymuned a theulu wrth lunio'r cyd-destun sy'n agor neu sy'n atal cyfleoedd.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod economïau arloesol yn darparu cyfleoedd helaethach - gan gynnwys ar gyfer y rheini sydd â'r lleiaf, hyd yn oed lle mae ganddynt sgiliau cymharol isel.

⁸ Nid oes gwerthusiad llawn o'r rhaglen Ardaloedd Cyfle wedi cael ei gyhoeddi eto.

⁹ Philippe Aghion, Céline Antonin a Simon Bunel, '[The power of creative destruction: economic upheaval and the wealth of nations](#)', 2021. Cyhoeddwyd gan HARVARD UNIVERSITY PRESS.

Er mwyn gwahaniaethu'n hymagwedd, "Cenhedlaeth Arloesi" yw'r enw rydym wedi'i roi ar ein hadroddiad. I ni, y sylfeini ar gyfer symudedd cymdeithasol effeithiol yw marchnadoedd agored a chystadleuol a'r rhain wedi'u cyfuno ag ymyriadau cryf ac eglur gan y llywodraeth, yn seiliedig ar dystiolaeth. Gall economi gref ac arloesol greu nifer helaethach o gyfleoedd ar gyfer amrywiaeth eang o bobl mewn amrywiaeth ehangach o leoedd.

Mae ysgogi twf economaidd a chreu cymdeithas lwyddiannus yn ddwy her unigryw, ond sy'n cyd-fynd. Sylfaen y ddwy yw safon uchel o addysg gyffredinol, ac wedyn system gref o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gymwys, gydag amrywiaeth o lwybrau ar gyfer symud i mewn i'r gweithle, cydnabod diddordebau a doniau gwahanol pobl. Mae'n rhaid i hyn fynd law yn llaw â mynd i'r afael â'n heriau economaidd sylfaenol o ran cynhyrchiant, arloesi ac anghydraddoldebau rhanbarthol - ac, yn hollbwysig, mae'n rhaid iddo fod wedi'i seilio ar dystiolaeth gref a chasglu data yn well a gwerthuso polisi. Mae'n rhaid i hyn gael ei gyfuno â dealltwriaeth well o'r ardaloedd hynny lle mae'r economi sector preifat wedi bod yn wan, lle mae cyfleoedd wedi bod yn

gyfyngedig, a'r effaith mae hyn wedi'i chael ar gymunedau, cymdogaethau a theuluoedd.

Nid ydym yn honni bod gennym yr holl atebion i wella symudedd cymdeithasol. Mae llawer iawn o waith ychwanegol i'w wneud. Mae ein gwaith hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar adeiladu'r sylfaen dystiolaeth, herio rhai o'r chwedlau am symudedd cymdeithasol, dadlau o blaid golwg wahanol, a chysylltu ein 'problem symudedd cymdeithasol' â'r heriau go iawn o ran gwella cyfle ar draws y wlad.

Mae hyn yn gyfystyr ag aildiffinio ac ailgyfeirio her symudedd cymdeithasol, a fframwaith newydd ar gyfer trafodaeth a dadl, yn hytrach na set o ragnodiadau polisi manwl. Rydym yn gwneud rhai argymhellion cyffredinol, fodd bynnag, a'r pwysicaf o'r rhain yw y deallir gwelliannau i symudedd cymdeithasol orau o safbwynt daearyddol ac y bydd atebion seiliedig ar le felly yn brif ffocws i'r dyfodol. Byddwn yn datblygu rhagor o gynigion manwl yn y gofod hwn. Yn awr, rydym yn falch o gyflwyno ymagwedd newydd at bolisi symudedd cymdeithasol ac annog gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid i ymuno â ni yn y drafodaeth.



Cyflwyniad

Mae llywodraethau olynol yn y DU wedi mynegi eu hymrwymiad i wella symudedd cymdeithasol. Fodd bynnag, bu rhwystredigaeth sylweddol ynghylch effaith gyfyngedig polisiâu ac ymyriadau a gynlluniwyd i wneud hynny. Mae rhesymau cymhleth dros hyn. Un yw diffyg gwerthuso cyson, a'r canlyniad yw nad oes gan lawer o feysydd polisi sylfaen dystiolaeth gref. Mae hyn yn gysylltiedig â chorddi polisiâu (gormod o newidiadau yn ymagwedd y llywodraeth, cyn i unrhyw beth gael cyfle i weithio, a dim ffocws cyson). Hefyd gall fod nad oes digon o ddealltwriaeth o'r ffactorau go iawn sy'n ysgogi canlyniadau gwahanol, ac felly bydd diffyg ffocws ar yr ymyriadau sy'n fwyaf tebygol o weithio. Yn bwysicach fyth o bosibl, rydym yn dadlau bod ein 'problem symudedd cymdeithasol' wedi'i diffinio'n wael i ddechrau. Mae'n gysylltiedig â chysyniad cul o symudedd hir am i fyny i'r 'dethol rai', gan guddio ffactorau ehangach sy'n rhwystro cyfle, a'r angen i feddwl am yr ystyron a'r diffiniadau gwahanol a all fod gan symudedd cymdeithasol.

Nid ydym ar ein pennau'n hunain wrth fod yn amheus am yr ymagwedd gonfensiynol at symudedd cymdeithasol. Mae'n bwysig ystyried y pryderon sydd gan feirniaid. Ochr yn ochr â dadl y 'dethol rai' mae sawl beirniadaeth arall. Un yw fod symudedd cymdeithasol yn ymwneud â sicrhau canlyniadau cyfartal rhwng grwpiau wrth anwybyddu anghydraddoldebau o fewn y grwpiau hynny. Un arall yw fod y broses o sicrhau cyfartaledd yn un afrealistig ac yn dibynnu ar lawer gormod o beirianeg gymdeithasol i'w chyflawni, hyd yn oed yn rhannol. Un arall yw fod y fath ymyriadau yn gyfystyr â 'gêm sero swm' oherwydd bod yn rhaid i lwyddiant enillydd gyd-fynd â cholled rhywun arall (er bod gwerthusiadau polisi yn drawiadol o dawel ynghylch pwy allai fod ar eu colled mewn unrhyw ymyriad penodol). Yn bwysig iawn, mae'n rhaid nodi bod symudedd cymdeithasol yn gysyniad llwythog o ran gwerth, ac efallai nad yw'r gwerthoedd hynny'n cael eu rhannu gan bawb – a gall gwahaniaethau mewn agweddau at symudedd cymdeithasol gyfrannu at y canlyniadau gwahanol sy'n gysylltiedig â grwpiau gwahanol.¹⁰

10 Social Market Foundation, 'Social mobility and its critics', 2023. Cyhoeddwyd yn SMF.CO.UK.

11 Social Market Foundation, 'Social mobility and its critics', 2023. Cyhoeddwyd yn SMF.CO.UK.



I rai, mae'r feirniadaeth hon mor ddifrifol nes eu bod yn awgrymu rhoi'r gorau i symudedd cymdeithasol er mwyn ffafrio ymagweddau eraill at gydraddoldeb cyfleoedd, yn enwedig rhai sy'n pwysleisio "cyfleoedd ar gyfer hunanwireddu yn hytrach na datblygiad cymdeithasol".¹¹ Mae gennym rywfaint o gydymdeimlad â'r ail ymagwedd, oherwydd ei bod yn golygu y gall unrhyw unigolyn, ni waeth ble y mae mewn bywyd, geisio cyflawni ei botensial a gwella'i sefyllfa – heb iddo gael ei fesur yn ôl ffyn mesur allanol nad yw wedi eu dewis. Gwendid difrifol damcaniaeth gonfensiynol symudedd cymdeithasol, boed yn seiliedig ar hierarchaeth o alwedigaethau neu o incwm, ei bod yn tanlinellu'r rhain fel y mesur gwrthrychol o gynnydd i unigolion a grwpiau. Ond efallai na fydd pobl yn rhannu'r gwerthoedd hyn, a gallant feddwl yn wahanol iawn am sut maent yn mesur eu cynnydd mewn bywyd. Mae llawer o bobl yn gwneud cynnydd enfawr ond heb i hyn arwain at symudedd sylweddol i fyny nac am i lawr yr hierarchaeth alwedigaethol, neu heb newidiadau sylweddol mewn incwm o'i gymharu â'r teulu y gwnaethant dyfu i fyny ynddo.

Mae'r syniad y gall fod a bod gan bobl symudedd cymdeithasol a'u bod yn gallu symud i fyny ac i lawr, ni waeth sut y mesurir hyn, yn un o nodweddion pwysig cymdeithasau modern, o ran effeithlonrwydd a thegwch economaidd. Ond mae angen iddo fod yn gytbwys o ran safbwyntiau a gwerthoedd eraill.

Mae symudedd cymdeithasol yn debygol o olygu pethau gwahanol, i bobl wahanol, mewn lleoedd gwahanol. A dylai llunwyr polisi fod yn sensitif i hyn.

Nid ydym, felly, yn ystyried y dylem fwrw'r cysyniad o symudedd cymdeithasol o'r neilltu yn llwyr. Plediwn, yn hytrach, dros ymagwedd luosogaethol, sy'n cydnabod nad oes gan symudedd cymdeithasol un ystyr, diffiniad neu fesur sefydlog. Mae hyn yn golygu ein bod yn cydnabod buddi dadansoddiad eang o darddiadau a chyrchfannau unigolion sy'n perthyn i grwpiau gwahanol, ac wrth gwrs sydd wedi cyfrannu at dadansoddiad hwn a'i ddyfnhau yn ein hadroddiadau State of the Nation olynol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod cyfyngiadau'r ymagwedd hon nad oes model "un ateb sy'n addas i bawb", y mae'n rhaid i bob unigolyn a grŵp gydymffurfio ag ef. Mae symudedd cymdeithasol yn debygol o olygu pethau gwahanol, i bobl wahanol, mewn lleoedd gwahanol. A dylai llunwyr polisi fod yn sensitif i hyn.

Mae ein hymagwedd yn golygu bod rhaid i ni wahaniaethu gwahanol fathau o symudedd cymdeithasol, wedi'u mesur mewn ffyrdd gwahanol, felly rydym wedi darparu crynodeb hawdd ei deall o'r prif ddiffiniadau ar dudalennau 16 i 17 isod. I roi ein dadl mewn termau syml, gan ddefnyddio'r eirfa dechnegol hon, mae ein heriau presennol ynghylch gwella cyfleoedd yn y DU yn ymwneud yn fwy â newidiadau i symudedd cymdeithasol absoliwt, wedi'u mesur yn nhermau galwedigaeth ac incwm, na symudedd cymdeithasol cymharol. O'r persbectif hwn, mae'r atebion ar gyfer symud rhwystrau rhag cyfleoedd yn golygu bod rhaid i ni ddechrau â'r economi i wella swm y cyfleoedd o ansawdd da, ac â daearyddiaeth os ydym am ddeall dosbarthiad y rhain a'r ffactorau cymhleth sydd wrth wraidd tangyflawni a thanberfformio i'r rheini sydd â'r lleiaf o bethau.

Mae hyn yn gwro'n sylweddol o ymagweddau blaenorol, sydd wedi tueddu i ganolbwyntio ar addysg fel y ddogyn hud ar gyfer gwella symudedd cymdeithasol. Mae hyn yn wir mewn nifer o ffyrdd, ond mae'n anwybyddu'r cyd-destun lle mae addysg yn gweithio neu nad yw'n gweithio ei swyn. Mae'r economi yn hollbwysig o ran cyfleoedd tyfu, ac mae economi, lle, cymuned, cymdogaeth a theulu oll yn hollbwysig wrth lunio eu dosbarthiad a'u hygyrchedd.

Beth yw
symudedd
cymdeithasol?



Beth ydym yn ei olygu pan siaradwn am symudedd cymdeithasol? Fel yn achos llawer o gysyniadau haniaethol, po fwyaf y ceisiwn ei ddadansoddi, y cymhlethaf oll mae'n ymddangos. Nid yw hyn yn amlwg bob amser o rywfaint o'r ymdriniaeth â'r pwnc hwn, a llawer ohoni'n cymryd y cysyniad yn ganiataol ac yn methu ag esbonio na chwestiynu'r set neilltuol o fesurau y mae'n seilio ei ddadleuon arni.

Felly, mae dadansoddi'r diffiniadau a'r metrigau gwahanol rydym yn eu defnyddio i fesur symudedd cymdeithasol yn ffordd fuddiol i seilio'n hymagwedd. Mae hyn yn esbonio hefyd pam mae sefydliadau gwahanol yn cymryd ymagweddau gwahanol ac mae'n awgrymu lle gall fod angen rhagor o ddata.

Prif fetrigau symudedd cymdeithasol

Galwedigaethol yn erbyn symudedd incwm

Mae unigolyn yn profi symudedd galwedigaethol os yw ei alwedigaeth mewn dosbarth galwedigaethol gwahanol i'w riant/rieni. Yn y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (SMC), rydym yn defnyddio pum categori galwedigaethol: 'proffesiynol uwch a rheolaethol', 'proffesiynol is a rheolaethol', 'canolig', 'dosbarth gweithiol uwch', a 'dosbarth gweithiol is'.¹² Mesurau galwedigaethol sydd â'r hanes hwyaf o ran ymchwil.

Mae unigolyn yn profi symudedd incwm os oes ganddo lefel incwm wahanol i'w riant/rieni ar yr un oedran. Mae mesurau incwm yn anos i'w defnyddio oherwydd bod gennym fylchau yn nata'r DU, sy'n dibynnu ar nifer fach o astudiaethau panel tymor hir ac nad ydynt mor gynhwysfawr â rhai gwledydd eraill (megis yr Unol Daleithiau, sy'n cysylltu cofnodion treth rhwng rhieni a'u plant, gan ganiatáu cymariaethau rhwng cenedlaethau).

Mae symudedd cymdeithasol wedi bod yn bwnc ymchwil mawr mewn cymdeithaseg

ac economeg, gyda chymdeithasegwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar symudedd dosbarth galwedigaethol ac economegwyr ar symudedd incwm. Mae'n bwysig bod yn eglur pa fesurau rydym yn eu defnyddio pryd, a pham. Wrth gwrs, mae rhywfaint o gydberthynas rhwng y ddau fesur, gan fod pobl yn y categorïau galwedigaethol uwch yn debygol o gael enillion dros y cyfartaledd hefyd, ac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, gall y ddau fesur amrywio; weithiau mae pobl mewn dosbarthiadau galwedigaethol is yn ennill mwy na'r rheini mewn dosbarthiadau galwedigaethol uwch. A dyfynnu enghraifft, o adroddiad State of the Nation 2024, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cyfrif yn uwch weithwyr proffesiynol, oherwydd bod eu swydd yn gofyn am radd gyntaf ar gyfer hyfforddiant sy'n gysylltiedig â mynediad a phrofiad, a defnyddio corff o wybodaeth yn ymarferol i gyfarwyddo eraill. Eto i gyd mae eu cyflog ar gyfartaledd yn is nag un llawer o alwedigaethau dosbarth gweithiol, gan gynnwys rhai galwedigaethau â llaw.

¹² Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[State of the Nation 2024: local to national, mapping opportunities for all](#)', 2024. Cyhoedwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK – gweler tudalennau 23 i 25.

Symudedd cymharol o'i gymharu â symudedd absoliwt

Mae cyfraddau symudedd absoliwt yn dangos y ganran o bobl sydd mewn galwedigaeth neu ddosbarth incwm gwahanol i'w rhieni, tra bydd mesurau cymharol yn cymharu'r cyfleoedd sydd gan o leiaf 2 grŵp o gyrraedd, o'u cymharu â'r cyfleoedd i osgoi, canlyniad penodol. Mae symudedd cymharol isel yn golygu bod y rheini sy'n dechrau bywyd mewn safle neilltuol yn fwy tebygol na'r rheini mewn grŵp arall i fod yn yr un safle yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae symudedd cymdeithasol cymharol yn ddefnyddiol pan rydym yn cymharu cyfleoedd un grŵp cymdeithasol (er enghraifft, y rheini o gefndir dosbarth gweithiol is) o newid eu categori galwedigaethol neu incwm o'u cymharu â chyfleoedd grŵp cymdeithasol arall (er enghraifft, y rheini sydd o gefndir canolig). Fodd bynnag, mae gormod o bwyslais ar symudedd cymdeithasol cymharol yn gallu cuddio gwelliannau arwyddocaol mewn symudedd absoliwt am i fyny.

Mae'r llywodraeth bresennol wedi mynegi diddordeb neilltuol mewn un mesur penodol sy'n cyfuno elfennau cymharol ac absoliwt - sef ystwythder incwm rhwng cenedlaethau (IGE), sy'n mesur cysondeb lefelau incwm o'r naill genhedlaeth i'r llall. Ei helpen gymharol yw cryfder y ddolen rhwng incwm rhieni a phlant, a'r elfen absoliwt yw lledaeniad incymau mewn un genhedlaeth o'i chymharu â'r nesaf. Mae ystwythder uwch yn awgrymu naill ai dolen agosach rhwng incwm rhieni ac un eu plant neu anghydraddoldeb incwm uwch yng nghenedlaeth y plant, neu (yn fwyaf tebygol) cyfuniad o'r naill a'r llall. Byddai ystwythder is yn golygu bod incwm y plant yn llai dibynnol ar incwm eu rhieni, a/neu fod anghydraddoldeb incwm wedi gostwng. Wrth gwrs, os yw anghydraddoldeb incwm cyffredinol yn mynd yn is mae'r cysylltiad rhwng incwm rhieni a'u plant yn cael llai o effaith ar fywydau'r plant nac os yw anghydraddoldeb incwm yn uchel, sydd yn un ddadl o blaid cyfuno'r ddau mewn mesur unigol. Rydym yn trafod IGE ymhellach ar dudalen 26 isod.

Canlyniadau symudedd tymor hir o'i gymharu â symudedd canolig

Fel arfer, mae canlyniadau symudedd cymdeithasol yn cael eu mesur yn seiliedig ar alwedigaethau pobl neu incwm yn eu 40au neu 50au. Fodd bynnag, rydym yn awr wedi datblygu amrediad o ganlyniadau canolig, yn seiliedig ar brofiadau pobl yn eu 20au a'u 30au. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall llwybr pobl iau yn well a'r heriau y gallant fod yn eu hwynebu; mae'n golygu hefyd y gallwn ddeall tueddiadau sy'n codi yn gynt.

Symudedd am i fyny o'i gymharu â symudedd am i lawr

Gall pob math o symudedd fod naill ai am i fyny neu am i lawr. Fel arfer, rydym yn canolbwyntio ar symudedd am i fyny, oherwydd ein bod am ganfod sut mae llawer o bobl yn symud i fyny'r ysgol alwedigaethol neu incwm a'u cynorthwyo i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn deall sut mae llawer o bobl yn eu cael eu hunain mewn grwpiau galwedigaethol neu incwm is na'u rhieni, a pham y gallai hynny fod.





Dehongli'r dystiolaeth

Mesurau galwedigaethol ac incwm

Mae cyfanswm symudedd galwedigaeth absoliwr wedi aros yn sefydlog ers degawdau, ac mae cyfradd y DU yn gymaradwy â rhai gwledydd Ewropeaidd eraill sydd ar gam tebyg yn esbygiad eu marchnadoeddf llafur.^{13 14} Gellir dweud yr un peth am symudedd incwm cymharol a symudedd galwedigaethol cymharol yn y DU; mae'r ail wedi gwella ychydig mewn gwirionedd dros y degawd diwethaf.¹⁵

Fodd bynnag, fel y mae adroddiad State of the Nation 2023 yn dangos, mae symudedd galwedigaethol am i fyny wedi arafu i'r cenedlaethau a gafodd eu geni yn y 1980au, o'u cymharu â'u rhagflaenwyr, tra bo symudedd am i lawr wedi cynyddu. Mae symudedd am i fyny yn parhau yn uwch na symudedd am i lawr, ond mae'r

gwarged symudedd i fyny o'i gymharu â'r symudedd i lawr yn lleihau, gan nad yw strwythur y farchnad lafur yn newid mor gyflym ag y gwnaeth yn y cyfnod ar ôl y rhyfel.¹⁶

Mae'n ymddangos bod symudedd incwm absoliwt am i fyny, a oedd yn gymharol dda i bobl a gafodd eu geni cyn canol y 1970au, wedi gostwng i'r rheini a gafodd eu geni o ganol y 1980au ymlaen.¹⁷ Mae data diweddarach yn dangos bod cynnydd tâl rhwng cenedlaethau yn sefyll yn llonydd, ac mewn rhai achosion yn mynd yn ei ôl, a all hefyd bylu symudedd incwm absoliwt am i fyny. Er enghraifft, roedd tâl canolrifol gwirioneddol fesul awr i raddedigion a rhai nad oeddent yn raddedigion 30 i 34 oed yn is yn 2022 na 15 mlynedd yn gynharach.¹⁸

13 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2022: a fresh approach to social mobility', 2022. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

14 Erzsébet Bukodi a John Goldthorpe, 'Social mobility and education in Britain: research, politics and policy', 2019. Cyhoeddwyd yn CAMBRIDGE.ORG.

15 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2023: people and places', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK. gweler tudalen 67, ffigur 2.10

16 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2023: people and places', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK. Gweler tudalennau 52, ffigur 2.0 (dynion) a 55, ffigur 2.2 (menywod).

17 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2023: people and places', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK. Gweler tudalen 77, ffigur 2.14

18 Resolution Foundation, 'An intergenerational audit for the UK', 2021. Cyhoeddwyd yn RESOLUTION FOUNDATION.ORG.

Canfyddiadau ehangach

Fel mae'r crynodeb hwn yn awgrymu, mae darlun cyffredinol symudedd cymdeithasol yn gymhleth. O'u cymharu â chenedlaethau blaenorol, mae'r dosbarth gweithiol wedi crebachu a'r dosbarth canol wedi ehangu, felly mae'r rheini a gafodd eu geni yn y 1980au sy'n ceisio symudedd am i fyny yn mynd i weld cystadleuaeth ddwysach. Fel y dywedwyd yn adroddiad State of the Nation 2022:

"Mae llai o bobl ar waelod yr ysgol gymdeithasol i wneud neidiau mawr mewn statws cymdeithasol, a mwy o bobl yn dechrau bywyd yn uwch, â llai o le i ddringo. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn golygu, er bod cyfanswm y gyfradd symudedd wedi aros yr un peth, mae cenedlaethau iau o ddynion a menywod yn fwy tebygol o brofi symudedd am i lawr ac yn llai tebygol o brofi symudedd am i fyny na'u rhieni neu eu tad-cu/mam-gu."¹⁹

Mae canfyddiadau diweddar yn awgrymu bod y genhedlaeth a gafodd ei geni ar ddechrau'r 1980au bron mor debygol o symud am i lawr ag am i fyny, er bod hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r ffaith fod mwy o bobl yn awr mewn swyddi proffesiynol i ddechrau.

Nid yw'n ymddangos bod y duedd hon yn gysylltiedig â gorbryder uwch am gyfluoedd. Mae cyfran y bobl sy'n dweud ei bod yn anodd iawn symud o'r naill ddosbarth i'r llall wedi cynyddu o 17% yn 2005 i 32% yn 2022, tra bo'r gyfran o bobl sy'n dweud "nad yw'n anodd iawn" symud o'r naill ddosbarth i'r llall arall wedi lleihau o 1 mewn 3 (33%) i ddim ond 1 mewn 9 (11%).²⁰

Yn perthyn yn agos i'r mater hwn, er heb ei gynnwys yn y dangosyddion symudedd cymdeithasol a amlinellir ar dudalennau 16 i 17, mae cyfoeth ac yn enwedig tai. Yn 2022, roedd tŷ yn y DU yn costio ar gyfartaledd tua 9 gwaith yn fwy na'r enillion blyneddol ar gyfartaledd, lefel na chafodd ei



gweld ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg (ac mor ddiweddar â chanol y 1990au, roedd y lluosyn yn 4 gwaith yn unig).²¹ Yn Llundain, 12 gwaith yw'r lluosyn presennol. Mae oedolion o bron bob cefndir yn ei chael hi'n anos prynu eu cartrefi cyntaf. Mae gan hyn effaith wahanol, yn dibynnu ar amgylchiadau teulu, daearyddiaeth a chefnidir cymdeithasol, sy'n cael ei waethgu gan renti cynyddol mewn dinasoedd mawr ac anawsterau cynyddol wrth gael tai cymdeithasol. Wrth gwrs, gall hyn hefyd gyfyngu ar gyfluoedd gyrfa oedolion ifanc, os nad ydynt yn gallu fforddio byw yn y dinasoedd lle gellir canfod yr amrediad ehangaf o swyddi.

Mae'r cynnydd mewn prisiau tai (ac o asedau megis ecwitiâu heb fod o'r DU y mae pobl iau yn llai tebygol o fod yn berchen arnynt) wedi arwain hefyd at anghydraddoldeb cynyddol mewn cronni cyfoeth ar draws cenedlaethau; ac mae'r cysylltiad rhwng perchentyaeth rhieni ac un eu plant wedi cryfhau, yn gyson ac yn sylweddol, ers 1991.^{22 23} Mae'r mater tai yn dangos bod mesur symudedd cymdeithasol trwy alwedigaethau neu incwm yn unig yn rhy gyfyngedig yn awr. Mae defnydd yr un mor bwysig yn ddangosydd cynnydd mewn bywyd.

¹⁹ Erzsébet Bukodi ac eraill, 'The mobility problem in Britain: new findings from the analysis of birth cohort data', 2014. Cyhoeddwyd yn ONLINELIBRARY.WILEY.COM.

²⁰ Oliver Heath a Monica Bennett, 'British social attitudes: social class', 2023. Cyhoeddwyd yn NATCEN.AC.UK.

²¹ Schroders, 'What 175 years of data tell us about house price affordability in the UK', 2023. Cyhoeddwyd yn SCHRODERS.COM.

²² Resolution Foundation, 'An intergenerational audit for the UK', 2021. Cyhoeddwyd yn RESOLUTIONFOUNDATION.ORG.

²³ Social Mobility Commission, 'State of the Nation 2023: people and places', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

Symud ymlaen



O ystyried y cefndir hwn, mae'n hawdd gweld pam mae'r Llywodraeth wedi dewis canolbwyntio ar wella cyfleoedd i bawb. Ond sut gall hi fynd i'r afael yn fwyaf effeithiol â'r materion niferus y mae wedi eu nodi?

Mae'n rhaid i bob trafodaeth am symudedd cymdeithasol ddechrau trwy gydnabod bod llawer o'r pethau yr hoffem wybod rhagor amdanynt wedi eu cyfyngu gan gyfyngiadau'r data. Yn absenoldeb data dibynadwy, mae'n rhaid i ymchwilwyr adeiladu modelau cymhleth, yn seiliedig ar ragdybiaethau. Bydd rhai o'r rhain yn fwy dibynadwy nag eraill - ac nid oes un ohonynt, a siarad yn fanwl, yn helpu i ddeall llwybrau a ffyrdd ymlaen unigol. Mae ein dealltwriaeth o'r rhain yn fwy cyfyngedig byth.

Un o'n blaenoriaethau fu nodi ble mae angen rhagor o ddata a dadansoddi arnom. Fodd bynnag, i wneud hyn yn effeithiol, mae angen penderfynu arnom hefyd beth yw'r materion allweddol. Fel mae'r crynodeb ar dudalennau 16 a 17 o'r metrigau gwahanol rydym yn eu defnyddio ar gyfer symudedd cymdeithasol yn awgrymu, nad oes un ymagwedd unigol at ddeall symudedd cymdeithasol, a dim un broblem unigol rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael â hi.

Ble dylai gwneuthurwyr polisi ganolbwyntio'u hymdrechion?

Mae ymagweddau confensiynol at symudedd cymdeithasol wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â symudedd isel am i fyny o'r gwaelod i'r brig. Mae'r rhain felly wedi blaenoriaethu cynorthwyo myfyrwyr academiaidd abl 'difreintiedig' i sicrhau lleoedd mewn prifysgolion elit (fel arfer aelodau o Grŵp Russell) a chyflogwyr mawr eu bri, er mwyn cyflawni cydbwysedd economaidd cymdeithasol gwell o fewn galwedigaethau elit.

Wrth gwrs, mae rhesymau dros yr ymagwedd hon. Mae'n amlwg yn bwysig fod pobl abl o bob cefndir yn gallu cyrchu gyrfaedd proffesiynol - ac nid ar eu cyfer hwy fel unigolion yn unig, ond i sicrhau bod y fath broffesiynau yn elwa o gael y bobl orau, o amrywiaeth o gefndiroedd cynrychioladol.

Fodd bynnag, perygl canolbwyntio ar y 'dethol rai' fel hyn yw bod yn rhy gul, gan fod o fudd i nifer fach o bobl ifanc o gefndiroedd difreintieig yn unig ('symudedd hofrennydd' yw'r enw a roddwyd arno o'r herwydd).²⁴ Mae'n rhagdybio yn aml mai rôl y swyddogaethau derbyn a recriwtio yw lleihau'r bwlch rhwng ymgeiswyr o gefndiroedd gwahanol, ac felly mae wedi arwain at ffocws ar 'dderbyniadau wedi'u cyd-destunoli' a 'recriwtio wedi'i gyd-destunoli', lle mae angen i bobl o gefndiroedd economaidd cymdeithasol is fodloni bar is nag ymgeiswyr eraill. Mae'r sicrwydd hwn yn

helpu nifer fach o bobl, ond mae'n peryglu polisi symudedd cymdeithasol i ddod yn gêm swm sero, gan ein bod yn ymyrryd i helpu un unigolyn ar draul rhywun arall. Fel arfer rydyn ni'n hollol anymwybodol o bwy allai'r rhai sy'n methu'r cyfle fod. Rhagdybir, yn aml, fod yn rhaid eu bod yn rhywun 'breintiedig', â'r rhagdybiaeth fod hyn yn decach, ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw astudiaethau sy'n cydgasglu'r dystiolaeth hon.

Mae'r ymagwedd hon hefyd yn gwneud symudedd cymdeithasol yn amherthnasol i'r mwyafrif, oherwydd ei fod yn canolbwyntio yn unig ar symudedd am i fyny o'r gwaelod i'r brig. Prin yw'r sylw y mae'n ei roi i symudedd ynghylch amrediad byrrach a phrin iawn yw'r sylw i symudedd am i lawr. Ac mae'n gwneud symudedd cymharol yn bwysicach na symudedd absoliwt, pan gellir dadlau mai symudedd cymdeithasol absoliwt sydd wedi bod yn brif ysgogwr canlyniadau gwell mewn hanes diweddar.

Er mwyn i symudedd cynaledig i fyny fod yn bosibl, ac i ddianc rhag yr ymagwedd swm sero, mae angen newid galwedigaethol arnom - twf cyfleoedd gan greu rhagor o le ym mandiau uwch galwedigaeth ac incwm. Rydym yn archwilio'r pwynt hollbwysig hwn yn fanylach yn adran Cyfleoedd Tyfu ar dudalennau 30 i 33.

²⁴ Anna Mountford-Zimdars ac eraill, '[Helicopter mobility: changing habitus without challenging structural inequalities. experiences of an international elite education programme](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn BERA-JOURNALS.ONLINELIBRARY.WILEY.COM.



Rôl daearyddiaeth ac anfantais

Pan rydym yn ystyried y dystiolaeth sy'n ymwneud â symudedd cymdeithasol, nid cefndir economaidd cymdeithasol yn unig y mae angen ei ystyried. Os ydym yn cymryd canlyniadau grŵp yn fesur, mae'n rhaid i ni gydnabod y gwahaniaethau rhwng grwpiau o ran ethnigrwydd, rhyw ac anabled. Mae'r rhain oll yn rhannau pwysig o stori symudedd cymdeithasol yn y DU. Er bod pob un yn bwrw rhywfaint o oleuni, nid oes un yn esboniad llwyr. Mae ffactor fodd bynnag, nad yw wedi ymddangos yn ddigon - a daearyddiaeth yw hwnnw. Darlunnir hyn yn adroddiad State of the Nation 2023 ac yn fanylach yn State of the Nation 2024.²⁵

Wedi'i gysylltu'n agos â hyn mae'r berthynas gymhleth rhwng symudedd cymdeithasol ac anfantais faterol. Heb os, mae'r ail yn broblem ddifrifol yn y DU; mae data diweddar yr Adran Gwaith a Phensiynau yn awgrymu, yn 2022/23, bod 25% o blant yn y DU yn byw mewn tlodi absoliwt ar ôl costau tai, a bod 30% yn byw mewn tlodi cymharol ar ôl costau tai.²⁶ Mae angen i ni ddeall pryd a pha rôl mae anfantais faterol yn ei chwarae mewn penderfynu canlyniadau bywyd a sut mae'n perthyn i ffactorau eraill.²⁷

Fodd bynnag, nid yw'r berthynas rhwng y ddau yn benderfyniadol o gwbl. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod llawer o bobl o'r un tarddiadau economaidd cymdeithasol yn symud i fyny (ac i lawr) yr ysgolion galwedigaethol ac incwm. Er enghraifft, mae data SMC yn dangos yn 2022 mai 34% yn unig o'r rhai 25 i 29 oed o gefndir dosbarth gweithiol is a weithiodd mewn galwedigaeth dosbarth gweithiol is neu oedd yn ddi-waith, roedd y 66% arall yn gweithio mewn galwedigaethau dosbarth gweithiol uwch, canolig neu broffesiynol.

Mae'r ffactorau sy'n eistedd y tu ôl i'r math hwn o symudiad yn cael eu cuddio pan mae symudedd cymdeithasol yn cael ei leihau i gwestiwn o anghydraddoldeb. Nid yw hyn yn gwadu'r cysylltiad rhwng amgylchiadau materol a chanlyniadau symudedd cymdeithasol - ond y cwestiwn yw pryd ac o dan ba amgylchiadau mae hyn yn gwneud gwahaniaeth.

Mae hyn yn berthnasol i'r rhai ar y gwaelod, sy'n ceisio symud am i fyny, ond hefyd y rhai yn y canol (er nad oes digon o ymchwil ar y mater hwn). Mae ei ddeall yn bwysig, os y rhagdybiaeth yw y dylid dileu'r rhwystrau sy'n atal doniau rhag cael eu gwireddu, cyn belled â phosibl.



25 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Promising prospects', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIAL-MOBILITY.DATA.GOV.UK.

26 Senedd y DU, 'Poverty in the UK: statistics', 2024. Cyhoeddwyd yn COMMONSLIBRARY.PARLIAMENT.UK.

27 Susan Mayer, 'What money can't buy: family income and children's life chances', 1997. Cyhoeddwyd yn HUP.HARVARD.EDU

Ai addysg yw'r ateb?

Er y gall symudedd cymdeithasol yn y DU fod wedi sefyll yn llonydd ar rai metrigau, mae symudedd addysg wedi bod yn llwyddiant mawr. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae cyfran y myfyrwyr (gan gynnwys myfyrwyr difreintiedig) sy'n cyflawni canlyniadau TGAU da wedi cynyddu'n sylweddol.²⁸ Mae llawer mwy o bobl ifanc yn awr yn mynychu prifysgol na chenhedlaeth yn ôl, hyd yn oed os na wnaeth eu rhieni. Mae'r bwch cefndir economaidd cymdeithasol mewn cofrestru i brifysgolion yn culhau; yn 2014, roedd pobl ifanc o gefndiroedd proffesiynol uwch 3.9 gwaith yn fwy tebygol o fod yn astudio am radd na'r rhai o gefndiroedd dosbarth gweithiol is, ac yn 2022 roeddent 2.2 gwaith yn unig yn fwy tebygol.²⁹ Mae prifysgol wedi galluogi llawer o bobl ifanc i gyfuno caffael cymwysterau uwch ag adleoli i drefi a dinasoedd prifysgol sy'n cynnig rhagolygon cyflogaeth gwell.

Fodd bynnag, mae gwahaniaethau daearyddol pwysig o ran cyflawniad. Er enghraifft, yn 2023, cyflawnodd 42.1% o fyfyrwyr cymwys ar gyfer cinio ysgol am ddim (FSM) yn Llundain Fewnol (Gorllewin) Radd 5 neu uwch mewn Saesneg a mathemateg, o gymharu â 17.3% yng Nglannau Mersi ac 17% yn Swydd Hampshire ac Ynys Wyth.³⁰ Ac mae amrywiadau o ran symud ymlaen i addysg uwch. Yn 2022, symudodd dros hanner disgyblion cymwys am ginio ysgol am ddim ymlaen i AU erbyn 19 oed yn 2022/23, o gymharu â 29% yn genedlaethol a llai nac un rhan o bump yn y De-orllewin.³¹

Ymhellach, er bod cymwysterau addysgol gwell yn gwneud symudedd galwedigaethol ac incwm i fyny yn llawer mwy tebygol, nid ydynt yn warant o lwyddiant diweddarach. Er bod y gyfradd gyflogaeth i raddedigion wedi cynyddu dros flynyddoedd diweddar, mae llawer o'r graddedigion hyn mewn galwedigaethau a gyflawnwyd yn draddodiadol

gan rai oedd heb – 33% yn 2023.³² Mae ffactor daearyddol cryf yn hyn; mae cyfraddau o raddedigion yn gweithio mewn rolau heb fod i raddedigion yn neilltuol o uchel y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr.³³ Yn ogystal, mae'r tanddefnydd o raddedigion yn y DU – yn enwedig y tu allan i Lundain – wedi cyfrannu at erydiad “premiwm tâl graddedigion”. Mae tâl canolrifol gwirioneddol i raddedigion 30 i 34 oed wedi lleihau yn llym dros y 15 mlynedd diwethaf i rai heb radd o'r un oedran.³⁴ Ynghyd â chostau (ymlaen llaw a dyled myfyrwyr) astudio mewn prifysgol, mae'r sefyllfa hon wedi arwain yn ddealladwy at rai o'r rheini sydd wedi ymrwymo'u hamser a'u hymdrech i ennill gradd yn cwestiynu gwerth ariannol gwneud hynny.

Mae anghydraddoldeb amlwg rhwng y graddau mae grwpiau ethnig gwahanol yn y DU o gefndir difreintiedig yn ennill budd ariannol o addysg. Mae plant difreintiedig o bob cefndir ethnig lleiafrifol yn cael canlyniadau TGAU gwell, ac yn fwy tebygol o fynd i brifysgol, na'u cymheiriaid Gwyn Prydeinig.³⁵ Fodd bynnag, nid yw'r manteision addysgol hyn o reidrwydd yn arwain at ragolygon cyflogaeth gwell. Mae gan ddynion ifanc Gwyn Prydeinig difreintiedig, sydd y lleiaf tebygol o bob grŵp i fynychu prifysgol, enillion gwell yn 28 oed, o gymharu â lefel eu cyrhaeddiad addysgol, na'r rhan fwyaf o grwpiau ethnig eraill. Mae pobl ifanc ethnig leiafrifol hefyd wedi'u tangynrychioli mewn prentisiaethau.³⁶

Pan edrychwn ar y mathau hyn o anghydraddoldebau, mae angen i ni ddeall rhagor am y rhesymau nad yw rhai pobl yn gwneud cystal ag eraill. Er bod cefndir economaidd cymdeithasol, rhyw ac ethnigrwydd oll yn chwarae rôl, nid oes un yn esbonio'r stori gyfan. Bron yn sicr, mae angen i ni edrych y tu hwnt i addysg i esbonio hyn - ar ddaearyddiaeth, yr economi, diwylliant, teuluoedd a chymunedau.

28 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 'Education inequalities', 2022. Cyhoeddwyd yn IFS.ORG.UK. Gweler ffigur 28.

29 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2023: people and places', 2023 a 'State of the Nation 2024: local to national, mapping opportunities for all', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

30 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Attainment at age 16', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIAL-MOBILITY.DATA.GOV.UK

31 Gov.UK, 'Widening participation in higher education', 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

32 Resolution Foundation, 'An intergenerational audit for the UK', 2023. Cyhoeddwyd yn RESOLUTIONFOUNDATION.ORG.

33 Resolution Foundation, 'An intergenerational audit for the UK', 2023. Cyhoeddwyd yn RESOLUTIONFOUNDATION.ORG.

34 Resolution Foundation, 'An intergenerational audit for the UK', 2023. Cyhoeddwyd yn RESOLUTIONFOUNDATION.ORG.

35 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 'Intergenerational mobility in the UK: IFS Deaton review of inequalities', 2023. Cyhoeddwyd yn IFS.ORG.UK.

36 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 'Intergenerational mobility in the UK: IFS Deaton review of inequalities', 2023. Cyhoeddwyd yn IFS.ORG.UK.

Er bod y gyfradd gyflogaeth i raddedigion wedi cynyddu dros flynyddoedd diweddar, mae llawer o'r graddedigion hyn mewn galwedigaethau a gyflawnwyd yn draddodiadol gan rai heb radd - 33% yn 2023. Mae ffactor daearyddol cryf yn hyn; mae cyfraddau o raddedigion sy'n gweithio mewn rolau nad ydynt ar gyfer graddedigion yn neilltuoel o uchel y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr.



Gosod targedau

Yn ogystal ag ystyried y problemau mae angen i ni eu datrys, mae angen i ni benderfynu pa ganlyniadau polisi y mae eu heisiau arnom. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw dargedau tymor byr na thymor canolig penodol ar gyfer symudedd cymdeithasol nac unrhyw syniad eglur o sut y gallai'r fath dargedau gael eu diffinio.

Mae'n ymddangos bod llawer o waith ymgyrchu ar symudedd cymdeithasol yn rhagdybio (er yn aml, heb ddatgan hyn yn eglur) y dylai'r canlyniadau ar gyfer pob cefndir economaidd cymdeithasol fod yr un peth, a bod unrhyw wahaniaeth rhwng canlyniadau grwpiau felly yn broblem, ac yn her i'w datrys.

Fodd bynnag, gall fod llawer o resymau am y gwahaniaethau mewn canlyniadau - nid yn unig ar draws cefndiroedd economaidd cymdeithasol, ond hefyd yn ddaearyddol ac ar draws nodweddion gwarchodedig gwahanol. Os yw canlyniadau grwpiau cyfartal i fod yn fesur llwyddiant o ran symudedd cymdeithasol, mae'n bwysig ystyried sut y byddai hyn yn edrych mewn gwirionedd. O'i diffinio felly, gallem gael meritocraziaeth berffaith, lle mae pobl yn cyflawni llwyddiant yn seiliedig ar eu gallu yn unig yn hytrach na'u chefnidir teuluol. Ond gallai hon fod yn system anghyfartal iawn o hyd, ac o bosibl yn un annheg, gan na fyddai canlyniadau cyfartal ar lefel grŵp yn dileu gwahaniaethau o fewn grwpiau. Yn ogystal, gallem fod yn aneglur o hyd am y ffactorau sy'n esbonio canlyniadau gwahanol - yn codi o lu o faterion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chefnidir economaidd gymdeithasol.

Nod hysbys y llywodraeth hon yw gwneud y DU yn un o'r gwledydd tecaf yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, gan leihau lefelau o ystwythder incwm rhwng cenedlaethau i rai gwledydd megis Denmarc, y Ffindir a Norwy (hynny yw, o ychydig dros 0.4 ar hyn o bryd i yn agosach at 0.2).³⁷ Ni rhoddir ffrâm amser penodol ar gyfer y dyhead hwn, er ei bod yn eglur o'r cyd-destun fod y llywodraeth yn sylweddoli fod rhaid i hyn fod yn nod tymor hir iawn.

Nid oes gan yr ymagwedd hon y budd o osod uchelgais tymor hir ar gyfer symudedd



cymdeithasol, ac yn hyn o beth mae'n gam ymlaen. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith ar y defnyddioldeb ymarferol o fesur symudedd cymdeithasol trwy ystwythder incwm rhwng cenedlaethau. Mae'r mesur hwn yn dibynnu ar argaeledd data a chysondeb mewn mesur ar draws gwledydd. Mae cymariaethau yn gymhleth hefyd oherwydd systemau a lefelau gwahanol o les ac aildosbarthu, normau cymdeithasol a strwythurau teuluoedd. Ein bwriad yw gweithio gyda'r llywodraeth i weld sut y gall IGE gael ei ddefnyddio'n effeithiol a byddwn yn llobio am ddata gwell i gefnogi hyn.

Wrth gwrs, darn bach o'r darlun yn unig yw gosod targedau; mae angen hefyd i ni ddyfalu sut i gyrraedd y nod. Byddai tystiolaeth eglur am effaith a gwerth am arian ymyriadau penodol yn ei gwneud yn haws i gyfiawnhau gwario yn y mlynnyddoedd i ddod.

Yng ngolau'r pwyntiau hyn, rydym yn ailgyfeirio ein hymagwedd at symudedd cymdeithasol â'n heriau presennol, gan ailosod ein blaenoriaethau er mwyn iddynt ategu rhaglen fwy effeithiol i wella symudedd cymdeithasol.

³⁷ Labour UK, '[Mission breaking down barriers](https://www.labour.org.uk/mission-breaking-down-barriers)', Cyhoeddwyd yn LABOUR.ORG.UK.

A hand holding a glowing lightbulb with a network of glowing nodes and lines in the background.

Ymagwedd newydd SMC a gynigir

Rôl data a dadansoddi

Mae data yn hollbwysig i'r ymarfer hwn a thrwy gydol y papur rydym wedi amlygu lle mae angen rhagor o ddata a dadansoddi i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r materion a sut i fynd i'r afael â nhw'n ddefnyddiol.

Ers 2022, mae'r SMC wedi canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael, er enghraifft, trwy ddatblygu ein Mynegai Symudedd Cymdeithasol newydd a'n pedwar mynegai cyfansoddol, Addo Rhagolygon, Amodau Plentyndod, Cyfleoedd Marchnad Lafur i Bobl Ifanc, ac Arloesedd a Thwff. Rydym hefyd wedi cynyddu'n ffocws ar daearyddiaeth, dadansoddi canlyniadau fesul 203 o ardaloedd awdurdodau lleol haen uwch.³⁸

Fodd bynnag, gallem gymryd y dadansoddiadau hyn ymhellach o lawer pe byddai gennym y data cywir. Er enghraifft, mae cyfyngiadau penodol yn y DU o ran data sy'n ymwneud ag incwm ac aelwydydd. Mae hyn mewn cyferbyniad, er enghraifft, â'r Unol Daleithiau - y mae eu hymchwilyr wedi gallu cynhyrchu dadansoddiadau mwy gronynnol o symudedd cymdeithasol, gan gysylltu incwm ag aelwydydd, dros amser ac o ran daearyddiaeth. Mae hyn wedi ei wneud yn effeithiol iawn gan Raj Chetty, sydd wedi arwain astudiaethau niferus ar symudedd cymdeithasol yn yr Unol Daleithiau sy'n defnyddio data wedi'u hanhybysu o ffurflenni treth incwm ffederal i fapio'r tueddiadau mewn symudedd rhwng cenedlaethau yn ddaearyddol yn ogystal â thros amser.³⁹

Yn Rhagfyr 2022, cynhyrchodd y SMC adroddiad, wedi'i ymchwilio a'i ysgrifennu gan y National Foundation for Educational Research, o dan y teitl 'Data for Social Mobility: improving the collection and availability of data on social mobility

across government'.⁴⁰ Roedd hwn yn cynnwys nifer o argymhellion wedi'u hanelu at wella rhannu data, cysylltu data a chasglu data, gan gynnwys y dylai llywodraeth y DU geisio datblygu set ddata ar lefel aelwyd. Pe byddent yn cael eu gweithredu, byddai'r argymhellion hyn yn gwella ansawdd yr wybodaeth am symudedd cymdeithasol yn aruthrol.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol os yw symudedd cymdeithasol i'w gymryd o ddifrif. Yn absenoldeb gwybodaeth o ansawdd da, mae llawer gormod o ymchwil yn seiliedig ar wneud casgliadau oddi wrth 'ddirprwyon', megis cinio ysgol am ddim (FSM), y Mynegai Amddifadedd Lluosog, neu fesurau tebyg eraill.⁴¹ Mae hyn yn arwain yn aml iawn at ganfyddiadau ymchwil sy'n ddeuaidd ac sy'n simplistig, gan greu anawsterau sylweddol iawn o ran pwyl y dylai polisiâu symudedd cymdeithasol eu targedu.

Mae diffiniadau llac, wedi'u cefnogi gan ddata annigonol, yn ei gwneud yn anodd i nodi pwyl yw'r 'difreintiedig' mewn gwirionedd. Mae hyn yn cael ei dderbyn gan nifer o ymarferwyr yn y maes, sydd wedi cynhyrchu adroddiadau sy'n darlunio'r problemau, er enghraifft, o dargedu cynlluniau "ehangu cyfranogaeth" ar gyfer mynediad i brifysgolion, neu'r defnydd o Ginio Ysgol am Ddim yn ddangosydd.⁴²

⁴³ Mae llawer o feysydd eraill sy'n brin o ddata dibynadwy. Nid yw ysgolion ac addysg bellach, er enghraifft, yn casglu data yn systematig am amgylchiadau teuluoedd, â rhywfaint o dystiolaeth ar incwm, ond ychydig ar alwedigaeth rhieni na chyflawniad addysgol. Heb hyn, mae'n anodd dangos dystiolaeth o effaith sefydliadau unigol a sectorau cyfan ar wella symudedd cymdeithasol.

38 Mewn rhai ardaloedd yn y DU, rhennir llywodraeth leol rhwng cyngor sir (ALI haen uchaf) a chyngor dosbarth (ALI haen isaf), sy'n gyfrifol am wahanol wasanaethau. Mewn ardaloedd eraill, mae ALI un haen (neu 'unedol') yn lle hynny

39 Raj Chetty ac eraill, 'Where is the land of opportunity? The geography of intergenerational mobility in the United States', 2014. Cyhoeddwyd yn ACADEMIC.OUP.COM.


40 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Data for social mobility: improving the collection and availability of data across government', 2022. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK

41 Sutton Trust, 'Measuring disadvantage', 2021. Cyhoeddwyd yn SUTTONTRUST.COM.

42 Sutton Trust, '25 years of university access', 2023. Cyhoeddwyd yn SUTTONTRUST.COM.

43 Stephen Gorard, Beng Huat See a Nadia Siddiqui, 'Making schools better for disadvantaged students: the international implications of evidence on effective school funding', 2022. Cyhoeddwyd yn ROUTLEDGE.COM.

**Yn hytrach na dilyn
yr ymagwedd 'cylch
bywyd' draddodiadol
o ddechrau â phlant ifanc
a symud i fyny, rydym wedi
strwythuro ein hymagwedd
i ddechrau trwy edrych ar rôl
twf mewn polisi symudedd
cymdeithasol, ac wedyn
gweithio yn ôl i ddeall beth
sydd ei angen ar bob cam.**



Cyfleoedd tyfu



Ein man cychwyn yw cydnabod pwysigrwydd canolog cyfleoedd tyfu. Trwy hyn, rydym yn golygu mynediad at yrfaoedd mewn galwedigaethau sgiliau uwch. Dyma oedd yr allwedd i 'oes aur' symudedd cymdeithasol pan gynhyrchodd yr economi swm helaethach o alwedigaethau sgiliau uwch, gan greu felly lle ar gyfer symudedd am i fyny. Mae siâp newidiol strwythur galwedigaethol y wlad hefyd wedi ysgogi cynnydd addysg uwch dorfol, gan fod cymwysterau lefel gradd wedi dod i'w canfod yn gynyddol yn gyfystyr â'r sgiliau gwybyddol sydd eu hangen ar gyfer gwaith sy'n ddeallusol drwm.⁴⁴

Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn gynharach, mae arwyddion bod y gwaged hwn yn dechrau lleihau. Mae'n amlwg hefyd nad yw'r gyrfaedd mewn sectorau sy'n gofyn am y lefel hon o gymhwyster wedi eu lledaenu'n wastad yn ddaearyddol - ac maen nhw mewn gwirionedd wedi'u canolbwyntio'n drwm mewn lleoliadau penodol ar draws y wlad. Yn benodol, mae'r sectorau ariannol a gwasanaeth proffesiynol, sydd wedi ysgogi twf economaidd ac wedi cynhyrchu'r gyfran fwyaf o gyfoeth y wlad, wedi'u canolbwyntio yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr, yr unig ranbarthau yn y DU sy'n talu mwy o dreth nac y maen nhw'n ei dderbyn yn ôl trwy wariant cyhoeddus.⁴⁵

Mae gweddill y wlad, y mae ei strwythur economaidd wedi newid yn radicalaidd o ganlyniad i ddad-ddiwydiannu, yn dderbynnwyd net o wariant cyhoeddus - hyd yn oed dinasoedd mawr megis Birmingham a Manceinion. Mae hyn yn gysylltiedig â'r problem economaidd sylfaenol sydd wrth wraidd economi wleidyddol y DU: her gronig, hirdymor cynhyrchiant isel, sydd wedi ffrwyno nid yn unig dwf ond hefyd gwelliant mewn cyflogau a safonau byw gwirioneddol. Mewn rhai ffyrdd, nid yw'r DU erioed wedi adfer yn iawn o argyfwng

ariannol byd-eang 2007 i 2009, gyda thwf GDP yn arafu o 3% ar gyfartaledd rhwng 1993 a 2007 i 1.5% rhwng 2009 a 2023.⁴⁶

Mae twf cynhyrchiant gwan y DU, a bylchau cynhyrchiant a gallu cynyddol o gymharu a chystadleuwyr megis yr Unol Daleithiau, Ffrainc a'r Almaen, wedi cael eu trafod llawer, gyda mwyafrif y dadansoddwyr yn dod i'r casgliad bod diffyg buddsoddiad mewn cyfalaf ffisegol a dynol yn brif achos.⁴⁷ Nid er syndod, Llundain a de-ddwyrain Lloegr yw'r unig ranbarthau â chynhyrchiant llafur uwch na chyfartaledd y DU – ac, oherwydd y clystyru o swyddi sy'n talu'n dda, a chostau tai nodedig o uchel.⁴⁸

Fel y mae darn meddwl diweddar SMC ar gynhyrchiant ac anghydraddoldeb yn dadlau, mae'r "cydgasgliad gofodol" hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd i unigolion â sgiliau uchel o gefndiroedd economaidd cymdeithasol is sy'n byw mewn ardaloedd heb fynediad hawdd i Lundain ac nid ydynt yn gallu fforddio (neu nid ydynt yn dymuno) adleoli. Mae'n golygu hefyd bod pobl â sgiliau is sy'n byw yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr yn wynebu costau tai gwaharddol o uchel a marchnad lafur alwedigaethol wedi'i gwahanu.⁴⁹

Mae'n amlwg fod rhaid i gynyddu cynhyrchiant, yn enwedig i ffwrdd o Lundain a de-ddwyrain Lloegr, fod yn flaenoriaeth i lunwyr polisi. Bydd polisïau cenedlaethol yn chwarae rhan bob amser; yn neilltuol, mae'n rhaid i'r llywodraeth sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i greu'r amodau cystadleuol teg i ganiatáu i waith caled, talent a menter ffynnu. Cododd ein darn meddwl diweddar ar reoleiddio galwedigaethol gwestiynau diddorol am a allai rhai gofynion ar gyfer ardystio penodol neu hyfforddiant gael eu diwygio neu eu dileu i agor mynediad at broffesiynau heb niweidio ansawdd y gwasanaeth na diogelwch y cwsmer.⁵⁰

44 Brink Lindsey, 'Human capitalism: how economic growth has made us smarter-and more unequal', 2013. Cyhoeddwyd gan PRINCETON UNIVERSITY PRESS.

45 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Country and regional public sector finances. UK: financial year ending 2023', 2024. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

46 Senedd y DU, 'Low growth: the economy's biggest challenge', 2024. Cyhoeddwyd yn COMMONSLIBRARY.PARLIAMENT.UK.

47 John Van Reenen a Xuyi Yang, 'Cracking the productivity code: an international comparison of UK productivity', 2024. Cyhoeddwyd yn EPRINTS. LSE.AC.UK.

48 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Regional and subregional labour productivity. UK: 2022', 2024. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

49 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Spatial agglomeration, productivity and inequality', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY. INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

50 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Occupational regulation and social mobility in the UK', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY. INDEPENDENT-COMMISSION.UK.



Fodd bynnag, mae llawer o ysgogwyr cynhyrchiant yn lleol yn sylfaenol - yn fwyaf amlwg y rhwydwaith trafndiaeth a chysylltedd digidol, ond hefyd y rhyngchwarae cymhleth rhwng cyfleoedd cyflogaeth a chaffael sgiliau. Er enghraifft, mae'r Strategaeth Ddiwydiannol arfaethedig a lansiwyd gan y llywodraeth ym mis Hydref 2024 yn amlinellu pwysigrwydd yr ymagwedd seiliedig ar le at ddatblygu sgiliau a chyfleoedd gyrfa ar draws amrediad o sectorau a diwydiannau arweiniol.⁵¹

Astudiaeth ddiddorol yma yw Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf, a sefydlwyd yn 2011, sy'n cael ei oruchwyllo gan un o "feiri metro" cyntaf y DU, â phwerau dros feysydd gan gynnwys trafndiaeth, sgiliau, cynllunio a thai. Andy Burnham sydd wedi dal y rôl ers 2017, sydd ac mae wedi lansio nifer o gynlluniau lleol, gan gynnwys "Bagloriaeth Manceinion", sef cynllun uchelgeisiol i greu llwybrau addysg technegol newydd i fyfyrwyr o 14 oed ymlaen.

Mae Manceinion Fwyaf ar ei hôl hi yn economaidd, a chynhyrchiant 35% yn is nac un Llundain. Ond, fel mae cyhoeddiad diweddar y Resolution Foundation yn dadlau, gallai strategaeth leol sydd wedi'i chanolbwyntio ar wella cysylltiadau trafndiaeth, gynyddu gofod

swyddfa canol dinas a chefnogi tai newydd yn y mannau cywir ysgogi twf sylweddol, gan greu o bosibl mwy na 200,000 o swyddi newydd i weithwyr â sgiliau uwch yn ogystal â rhai is.⁵²

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynorthwyo twf economaidd cynaledig mewn partneriaeth â busnesau, undebau llafur, arweinyddion lleol a gweinyddiaethau datganoledig; a dygodd cyfarfod cyntaf 'Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau' arweinyddion llywodraeth, metro ac awdurdodau lleol (ALI) ynghyd i ganolbwyntio ar fuddsoddiad a thwf. Fodd bynnag, nid yw cynllun eglur ar gyfer sut y gall y rhain ac arweinyddion eraill ar draws cymdeithas sifig gydweithio orau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu eto. Mae'n hanfodol fod cenhadaeth dwf y llywodraeth yn gwireddu ei haddurned i wneud arloesi a thwf cynhyrchiant yn ganolog i'w chynlluniau cyflawni, a bod yr elfennau hyn yn cael eu mynegi'n eglurach, gan gynnwys o fewn cytundebau datganoli.

Fel mae ein darn meddwl ar arloesi a symudedd cymdeithasol yn ei egluro, dylai unrhyw strategaeth wedi'i chanolbwyntio ar dwf yn lleol neu'n rhanbarthol hefyd ganolbwyntio ar ddenu buddsoddiad wedi'i gyfeirio'n lleol a hyrwyddo twf sector preifat ac arloesedd. Bydd hyn yn creu swyddi sgiliau uwch newydd ac, â'r strwythurau hyfforddi cywir mewn grym, yn uwchsgilio gweithwyr ar yr un pryd mewn rolau isaf.⁵³

Mae strategaeth gydlynol ym maes sgiliau a chyflogaeth yn hanfodol. Mae'n amlwg nad yw cyflenwad cynyddol o swyddi medrus yn arwain yn awtomatig at ddinasyddion y DU yn camu i mewn i'r swyddi hyn – mae Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2022 yn awgrymu bod dros draean swyddi gwag y DU oherwydd prinderau sgiliau.⁵⁴ Mae'r fath brinderau yn bodoli ar y lefel genedlaethol ac oherwydd ansymudedd llafur, yn enwedig mewn galwedigaethau nad ydynt ar gyfer graddedigion.⁵⁵ Mae Skills England, corff hyd braich newydd, wedi cael ei sefydlu yn awr i fynd i'r afael â'r materion hyn.⁵⁶

51 Gov.UK, 'Invest 2035: the UK's modern industrial strategy', 2024. Cyhoeddwyd yn GOV.UK

52 The Economy 2030 Inquiry, 'A tale of two cities (part 2)', 2023. Cyhoeddwyd yn ECONOMY2030.RESOLUTIONFOUNDATION.ORG.

53 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Innovation and social mobility: two sides of the same coin', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

54 Adran Addysg, 'Employer skills survey: 2022', 2023. Cyhoeddwyd yn GOV.UK

55 Adran Addysg, 'Skills England: driving growth and widening opportunities', 2024. Cyhoeddwyd yn GOV.UK

56 Adran Addysg, 'Skills England: driving growth and widening opportunities', 2024. Cyhoeddwyd yn GOV.UK

Yr un mor bwysig mae cynigion y llywodraeth i gynyddu datganoli, gan roi'r pwerau i ardaloedd mwy lleol gytuno ar gynlluniau twf hirdymor ar gyfer sectorau penodol a gosod eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer addysg oedolion, sgiliau a chymorth cyflogaeth. Mae ffactorau amrywiol sy'n cystadlu i'w pwysu wrth benderfynu ar natur a chwmpas unrhyw gytundebau datganoli - gan gynnwys i ba raddau y dylai awdurdodau datganoledig ddatblygu eu llwybrau a chymwysterau addysgol arbennig eu hunain. Fodd bynnag, mae'r cytundebau hyn yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol gyffrous, â'r potensial i alluogi pobl leol i gymryd perchenogaeth o'u dyfodol eu hunain a datblygu datrysiadau arloesol ar gyfer anghenion lleol. Bydd angen idynt ganolbwyntio'n ddi-baid ar y nod yn y pen draw, sef lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol trwy feithrin marchnadoedd cystadleuol a sicrhau bod gan y gymuned gyfan y sgiliau a'r capasiti i gymryd rhan ynddynt a chael budd ohonynt.

Bydd y SMC yn ymgymryd â gwaith ychwanegol o gwmpas thema symudedd cymdeithasol a chyfleoedd economaidd, â ffocws ar sicrhau bod buddion twf yn cael eu rhannu'n eang, yn ddaearyddol ac ar draws y rheini oll Rydym hefyd am ddeall y symud o addysg i gyflogaeth a sut y gall y DU gynorthwyo pobl ifanc orau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt yn economi heddiw



Datblygu talent



Er ein bod yn gosod 'cyfleoedd tyfu' yng nghanol ein strategaeth ar gyfer symudedd cymdeithasol gwell, nid yw hyn yn golygu nad yw addysg yn bwysig. i'r gwrthwyneb. Mae gan y system addysg rôl bwysig iawn i'w chwarae o ran yr economi a symudedd cymdeithasol. Fodd bynnag, mae llunwyr polisi wedi ystyried ei rôl yn y naill a'r llall mewn ffyrdd rhy gul.

Mae'r ffocws wedi bod ar fodel un maint sy'n addas i bawb sy'n blaenoriaethu ehangu addysg uwch i bobl ifanc fel y brif ffordd o gyflenwi'r sgiliau lefel uwch gofynnol mewn economi ôl-ddiwydiannol, wedi'i harwain gan wasanaethau, 'gwybodaeth'. Mae llawer llai o sylw wedi cael ei dalu i lwybrau amgen, fel addysg dechnegol a phrentisiaethau, gan gynnwys lefelau sgiliau canolig yn ogystal ag uwch. Ymhellach, mae rhy ychydig o sylw wedi cael ei dalu i broblem dysgu ar lefel sylfaen.⁵⁷

Gwerthuso mynediad at addysg uwch

Nid yw safle cryf addysgu uwch yn y disgwrs cyhoeddus am symudedd cymdeithasol a chyfleoedd estynedig yn syndod. Mae llawer i'w ddathlu o ran canlyniadau gwell yn Lloegr. Mae mwy o bobl ifanc nac erioed yn aros mewn addysg ar ôl TGAU, a 84% o bobl ifanc 16 i 17 oed yn awr mewn addysg amser llawn, o gymharu â 50% yn yr 1980au.⁵⁸ Mae ein hadroddiad State of the Nation yn dangos bod mynediad at addysg uwch wedi gwella'n sylweddol i bobl o gefndiroedd economaidd cymdeithasol gwahanol, gan gynnig sawl llwybr at symudedd am i fyny.^{59 60}

O dan y data pennawd, mae rhai pryderon o hyd - yn enwedig wrth adolygu perfformiad cymharol (cymaradwy) pobl o gefndiroedd economaidd cymdeithasol gwahanol, yn hytrach na rhifau absoliwt. Aeth cyfanswm o 14.2% o ddisgyblion wedi'u cyllido gan y wladwriaeth yn Lloegr oedd yn gymwys ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim yn 15 oed i mewn i addysg uwch erbyn 19 oed erbyn 2005/06.

Mae'r gyfradd wedi codi'n weddol gyson dros amser ac mae'n sefyll ar 29% ar gyfer carfan 2022/23. Fodd bynnag, mae hyn yn cymharu â 49.8% o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys am Ginio Ysgol Am Ddim sy'n mynd i mewn i addysg uwch ar yr un oedran.⁶¹ Cynyddir yr anghydraddoldeb hwn ymhellach wrth adolygu'r amrywiad ar draws mathau gwahanol o gymwysterau a'u canlyniadau dilynol yn y farchnad lafur. Dangosodd ein hadroddiad Gwerth Marchnad Lafur Cymwysterau fod y rhai a raddiodd o brifysgolion mwy dethol fel arfer yn ennill mwy, a bod myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig sy'n mynd i brifysgol yn anghymesur llai tebygol o fynychu prifysgolion neu i astudio pynciau sy'n gysylltiedig ag enillion uwch o gymharu â'u cymheiriaid cyfoethocach â graddfeydd tebyg.⁶² Nid yw hyn yn syndod, ond mae'n dangos y graddau y mae pobl ifanc academaidd abl o gefndir economaidd cymdeithasol is, sy'n cael eu tangynrychioli yn y prifysgolion hyn, yn methu ar incwm a chyfleoedd.

57 Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, '[The great skills divide: how learning inequalities risk holding the UK back](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn LEARNINGANDWORK.ORG.UK.

58 Adran Addysg, '[Participation in education, training or employment age 16 to 18](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK. O 2015 ymlaen, gofynnir i bobl ifanc yn Lloegr aros yn cymryd rhan mewn rhyw ffurf o addysg neu hyfforddiant hyd eu bod yn 18 oed.

59 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[State of the Nation 2023: people and places](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

60 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[State of the Nation 2024: local to national, mapping opportunities for all](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

61 Gov.UK, '[Widening participation in higher education](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

62 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Labour market value of higher and further education qualifications](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

Mewn ymateb i'r sefyllfa hon, mae ymagweddau gwahanol at wella mynediad at addysg uwch wedi dod i'r amlwg. Mae rhai wedi canolbwyntio ar wella perfformiad addysgol a chynnig cymorth wedi'i dargedu i sicrhau bod y rheini o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cystadlu'n deg a heb wahaniaethu. Mae eraill yn dadlau bod y bylchau cyrhaeddiad cyson yn golygu y dylai meini prawf mynediad gael eu diwygio i wneud iawn am gefndir economaidd cymdeithasol. Mae hyn wedi arwain at yr ymarfer eang o 'dderbyniadau wedi'u cyd-destunoli' ymhlith prifysgolion a 'recriwtio wedi'i gyd-destunoli' ymhlith cyflogwyr, sy'n gostwng y graddau gofynnol i ymgeiswyr o gefndiroedd economaidd gymdeithasol is.

Mae gwahanol sefydliadau yn diffinio anfantais economaidd gymdeithasol mewn ffyrdd gwahanol, sy'n golygu bod anghysonderau ynghylch pwy sy'n gymwys i gymryd rhan yn y broses gyd-destunoli. Mae diffyg eglurder hefyd am bwy sy'n methu o ganlyniad i'r ymyriadau hyn, gan nad ydynt wedi cael eu cipio yn y 'grŵp targed'. Mae hyn yn arwain at ddiffyg tryloywder am lawer o'r gweithgaredd hwn.


Mae'r ymyriadau hyn yn gofyn am ragor o werthuso i ddeall eu heffaith ac adnabod y dulliau gorau ar gyfer targedu'r rhai mwyaf difreintiedig.^{63 64} Rydym yn annog rhagor o waith ar ymyriadau sy'n blaenoriaethu sgiliau a gwybodaeth myfyrwyr difreintiedig, yn hytrach na gostwng safonau mynediad iddynt – gan fod perygl i'r ail fod yn gêm swm sero.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ystyried bod angen persbectif ehangach ar y cysylltiad rhwng y system addysg a'r proffesiynau. Ar sawl ystyr, mae'r system addysg, yn enwedig llwybrau ôl-16, wedi ei llunio mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu safle cryf y proffesiynau yn yr economi, gyda'r llwybrau i mewn i alwedigaethau elit wedi'u hamlinellu'n eglur, ac eraill llai felly. Mae arnom angen nid yn unig mynediad agored at alwedigaethau proffesiynol ond amrediad ehangach o gyfleoedd mewn amrediad ehangach o leoedd, ac mae hyn yn awgrymu datblygu model economaidd gwahanol. Os yw hyn yn mynd i gael ei gyflawni, yna mae'n rhaid i'n system addysg, yn enwedig o ran llwybrau ôl-16, adlewyrchu'r uchelgais hon.



63 Sutton Trust, '[25 years of university access](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn SUTTONTRUST.COM.

64 Higher Education Policy Institute, '[First-in-family-students](#)', 2022. Cyhoeddwyd yn HEPI.AC.UK.



Llwybrau amgen - a ydym yn gwybod beth sy'n gweithio?

A thros 50% o bobl ifanc ddim yn mynychu prifysgol, mae'n rhaid i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gryfach fod yn flaenoriaeth.

Mae gwerthuso mynediad at addysg uwch yn bwysig; fodd bynnag, o ran symudedd cymdeithasol dylai ein ffocws fod yn ehangach. Yn neilltuol, mae'n rhaid i ni ystyried y set sy'n dod i'r amlwg o lwybrau amgen i bobl ifanc sy'n dewis peidio â chymryd y llwybr addysg uwch, yn enwedig yn ffurf prentisiaethau a system wedi'i hadfywio a'i gwella o addysg a hyfforddiant technegol. Dros y degawd diwethaf, mae diddordeb cynyddol wedi bod yn yr ymagweddau hyn, a chynigion i ehangu'r llwybrau hyn ac annog ymgymryd â nhw. Mae'r SMC yn awyddus i'w hyrwyddo a rhwydweithiau cymorth partion â diddordeb sydd am ymuno â ni yn y gorchwyl hwn.

Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau o gwbl. Mae bron pob un o'r llwybrau hyn yn wynebu heriau amrywiol ynghylch gweithredu ac, o ran symudedd cymdeithasol, mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sydd fwyaf effeithiol yn parhau'n gyfyngedig iawn. A thros 50% o bobl ifanc ddim yn mynychu prifysgol, mae'n rhaid i sylfaen dystiolaeth gryfach fod yn flaenoriaeth.⁶⁵

Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r sylwebaeth symudedd cymdeithasol ar y pwnc hwn wedi canolbwyntio ar gydraddoldeb mynediad.⁶⁶ Mae asesu effaith y llwybrau hyn ar symudedd cymdeithasol gwirioneddol yn ganlyniad hirdymor, ac mae'n gofyn am werthusiadau mwy systematig, sydd yn eu tro yn gofyn i ni fynd i'r afael a bylchau mewn gwybodaeth. Er enghraifft, er bod data cryf ar werth marchnad lafur graddau prifysgol penodol, mae tystiolaeth gymharol ar werth cymwysterau galwedigaethol a thechnegol yn anos o lawer i'w chael. Mae'r system addysg bellach yn gymhleth, â mwy o fathau o gymwysterau a sefydliadau nac addysg uwch, ac mae hyn wedi ei gwneud yn anodd i werthuso gwerthoedd cymharol y cymwysterau gwahanol sydd ar gael.⁶⁷ Ymhellach, mae data'r cyrchfan, sy'n cofnodi canlyniadau cyflogaeth myfyrwyr a dysgwyr ar ôl iddynt gwblhau cwrs, yn sylweddol llai dibynadwy ar gyfer addysg bellach nag ar gyfer addysg uwch.^{68 69}

Mae angen ymagwedd fwy systematig ar y corff cyfan hwn o waith, at werthuso pa raglenni polisi sy'n cael yr effaith fwyaf. Er enghraifft, nid oes gwerthusiad annibynnol o'r polisi Codi'r Oedran Cyfranogi (RPA) o 2013 wedi bod, a gyflwynwyd yn dilyn Adolygiad Wolf 2011.⁷⁰ Gwnaeth hyn hi'n orfodol i bawb o dan 18 fod mewn rhyw ffurf o addysg neu hyfforddiant a gofynnodd i'r rheini o 16 i 19 oed nad oedd wedi llwyddo mewn TGAU Saesneg neu Fathemateg (neu gyfwerth) i'w hailsefyll ochr yn ochr â'u cwrs galwedigaethol. Rydym yn ystyried ei bod yn debygol fod y polisi diweddarach hwn wedi agor cyfleoedd i bobl ifanc i fynd i mewn i yrfaoedd megis nyrsio, a fyddai wedi bod ar gau iddynt heb y cymwysterau Saesneg a mathemateg, ond nid oes sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr y naill ffordd na'r llall i ddangos hyn.

65 Adran Addysg, '[Participation measures in higher education](#)', 2021/22. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

66 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Apprenticeships and social mobility: fulfilling potential](#)', 2020. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

67 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Labour market value of higher and further education qualifications](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

68 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Labour market value of higher and further education qualifications](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

69 Claudia Hupkau ac eraill, '[Post-compulsory education in England: choices and implications](#)', 2020. Cyhoeddwyd yn CAMBRIDGE.ORG

70 Alison Wolf, '[Review of vocational education: the Wolf report](#)', 2011. Cyhoeddwyd yn GOV.UK



Mae adolygiad cwricwlwm yr Adran Addysg (DfE) yn ystyried y gofyniad ynghylch Saesneg a Mathemateg 16 i 19 oed a gofynnodd am farn yn rhan o'i alwad am dystiolaeth yn Hydref 2024.⁷¹

Mae cwestiwn hefyd a yw colegau wedi eu cyllido'n ddigonol i ddarparu'r addysgu hwn. Y tâl blyneddol ar gyfartaledd (canolrifol) i athro ysgol yw £41,500 o gymharu â £34,500 i athro coleg addysg bellach.⁷² Yn ddealladwy mae hyn yn cael effaith ar drosiant a chadw: mae tua 25% o athrawon coleg yn gadael y proffesiwn ar ôl un flwyddyn o gymharu â 15% o athrawon ysgol.⁷³

Yn fwy diweddar, mae newidiadau wedi bod i addysg dechnegol, gyda chyflwyno Lefelau T a'r datgyllido arfaethedig ar gymwysterau BTEC (er bod y llywodraeth newydd yn adolygu hyn).⁷⁴ Mae'r newidiadau hyn wedi denu llawer iawn o feirniadaeth ddechreuol, er ei bod yn rhy gynnar i asesu unrhyw effeithiau.⁷⁵ Yr hyn sydd ar goll o'r ddadl hon yw gwybodaeth hanesyddol am gyrchfannau'r

dysgwyr Lefel 3 (hynny yw, y rheini sy'n astudio ar gyfer cymwysterau fel arfer wedi'u hanelu at bobl ifanc 16 i 19 oed) sy'n cwblhau eu cymhwyster ac nad ydynt, wedyn, yn cofrestru i brifysgol neu ar brentisiaeth. Mae'r niferoedd hyn yn fawr, ac yn debygol o fod y mwyafrif o ddysgwyr Lefel 3.⁷⁶

Nid yw'r data mae'r Adran Addysg yn eu casglu ar hyn o bryd yn bwrw llawer o oleuni o ran canlyniadau tymor hwy - er ei bod yn awgrymu y gall canlyniadau tymor byr fod yn siomedig. Ymddengys mai cymharol ychydig o ddeiliaid cymwysterau Lefel 3 sydd mewn cyflogaeth yn y pwnc maen nhw wedi'i astudio, sy'n codi cwestiynau am y cymwysterau hynny fel paratoad ar gyfer gwaith. Mae cael cofnod o'u cyrchfan yn bwysig wrth benderfynu a yw eu cymhwyster wedi eu harwain i mewn i lwybr cyflogaeth gwahanol neu beidio. Mae absenoldeb y data hyn yn adlewyrchiad o absenoldeb ehangach data da ar y canlyniadau i'r 50% nad ydynt yn dilyn y llwybr prifysgol.⁷⁷

71 Adran Addysg, '[Improving the curriculum and assessment system](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn GOV.UK

72 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, '[What has happened to college teacher pay in England?](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn IDS.ORG.UK.

73 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, '[What has happened to college teacher pay in England?](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn IDS.ORG.UK.

74 Senedd y DU, '[The future of post-16 qualifications](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn PUBLICATIONS.PARLIAMENT.UK.

75 Adran Addysg, '[T Level Action Plan](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn GOV.UK

76 Adran Addysg, '[Progression to higher education or training](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

77 Adran Addysg, '[Participation Measures in Higher Education](#)', 2021/22. Cyhoeddwyd yn GOV.UK



Diwygio prentisiaethau

Cydnabyddir prentisiaethau yn llwybr allweddol ôl-16 i waith ac astudio. Fodd bynnag, mae heriau polisi yn atal prentisiaethau rhag cyrraedd eu potensial llawn, yn enwedig yn gerbyd at wella symudedd cymdeithasol. Yn 2017, cyflwynodd y llywodraeth yr Ardoll Brentisiaethau, treth i gyflogwyr â bil tâl blynyddol o fwy na £3 miliwn sy'n cyllido hyfforddiant prentisiaethau. Mae cyflwyno'r ardoll wedi cymell cyflogwyr i uwchsgilio staff presennol, gan eu hanfon ar gyrsiau rheolaeth lefel uwch a rhai datblygiad proffesiynol, yn hytrach na chynnig cyfleoedd lefel mynediad sydd fel arfer yn denu gweithwyr iau neu bobl sydd â chymwysterau is. Mae ein data ein hunain wedi dangos bod yr ardoll wedi arwain at ostyngiad mewn dechreuadau prentisiaeth i bobl o gefndiroedd difreintiedig, ac atgyfnerthir hyn gan ganfyddiadau diweddar gan randdeiliaid eraill gan gynnwys y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad a'r Sefydliad Dyfodol Ieuenctid.^{78 79}

Mewn ymateb, cyhoeddodd y llywodraeth ym Medi 2024 y byddai'r ardoll yn cael ei

disodli gan ardoll twf a sgiliau newydd, fydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr i wario eu cyfraniadau ardoll ar hyfforddiant heblaw am brentisiaethau. Mae hyn yn ddechrau addawol, er bod y manylion yn parhau yn aneglur.

Fodd bynnag, mae set ehangach o gwestiynau am sut i wella effeithiolrwydd y system brentisiaethau – gan gynnwys edrych ar ledaeniad daearyddol cyfleoedd prentisiaethau, y nifer gyfyngedig ar gael a'r gyfradd syrthio allan uchel.⁸⁰ Mae angen dysgu rhagor ynghylch i ba raddau mae prentisiaethau yn gerbydau ar gyfer symudedd cymdeithasol – gan y rhagdybir hyn yn aml yn hytrach na'i arddangos. Ychydig o ymchwil sydd wedi cael ei wneud i'r rhesymau pam mae rhai yn canfod cymeriad 'cymwysedig' dysgu technegol a galwedigaethol yn fwy deniadol nag ymagweddau academiaidd, sy'n bwysig o ran deall pwy sydd fwyaf addas ar gyfer pob llwybr. Byddai'r system brentisiaethau gyfan yn elwa o adolygiad annibynnol cyfredol.

78 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Apprenticeships and social mobility](#)', 2020. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK. Dangosodd ein hadroddiad dystiolaeth fod 36% o ostyngiad mewn dechreuadau prentisiaeth difreintiedig rhwng 2015/16 a 2017/18 o'i gymharu â 23% o ostyngiad i brentisiaid mwy breintiedig.

79 Chartered Institute of Personnel and Development and Youth Futures Foundation, '[Balancing act: youth apprenticeships and the case for a flexible skills levy](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn CIPD.ORG.UK.

80 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[Apprenticeships: bridging the gap for disadvantaged learners?](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

Sgiliau oedolion

Nid prentisiaethau yw'r unig faes o ddarparu cyllid sydd angen ei adolygu. Mae darparu cyfleoedd i oedolion uwchsgilio ac ailsgilio trwy gydol eu hoes yn bwysig iawn. Mae llawer yn cyrchu addysg uwch fel myfyrwyr aeddfed ac yn cyflawni'n dda, yn aml mewn gwrthgyferbyniad â'u perfformiad ysgol cynharach. Mae'r agwedd hon o'r system yn derbyn ychydig o sylw, ond mae'n darlunio'r pwysigrwydd o ddarparu opsiynau hyblyg i oedolion o ddysgwyr, a pheidio â rhagdybio bod y llwybrau addysg uwch yn gweithio i bobl ifanc 18 i 21 oed yn unig.

Mae dysgu oedolion yn cwmpasu amrediad eang o ddarpariaeth, gan gynnwys prentisiaethau yn ogystal â sgiliau sylfaenol, llythrennedd, rhifedd a chymwysterau lefel is. Mae llawer o astudiaethau wedi cyfeirio at y gostyngiad mewn cyllido ers 2010 ac, fel yn achos rhaglenni cyllido eraill, mae'n dioddef oherwydd corddi polisïau a diffyg gwerthuso'r 'hyn sy'n gweithio', yn enwedig mewn ardaloedd lle mae mynychder uchel o lefelau cymhwyster is na'r cyfartaledd.⁸¹

Mae'r maes polisi hwn wedi ei ddatganoli i Awdurdodau wedi'u Cyfuno (megis Manceinion Fwyaf), lle mae trefniadau datganoli mewn grym, gan alluogi ymagwedd leoledig.⁸² Mae oedolion o ddysgwyr yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r boblogaeth oedolion, gan gynnwys llawer o rieni sy'n gobeithio gwella'u sgiliau wrth gyflawni gofal plant hefyd. Mae gwneud gwelliannau sylweddol i symudedd cymdeithasol isel rhwng cenedlaethau yn gofyn am welliannau i ganlyniadau addysgol plant ac mae'n annhebygol o ddigwydd heb gynyddu'r sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws teuluoedd cyfan.⁸³

Fodd bynnag, ni ellir cyflawni hyn heb bolisi cenedlaethol cydlynol ar gyfer cyllido addysg oedolion, gan gynnwys pwrpas, nodau ac amcanion. Dylai polisi o'r fath osod fframwaith eglur o fewn pa benderfyniadau datganoledig sy'n gallu digwydd, a chyda phwyslais ar



werthuso cywir, gan ganiatáu i arfer gorau ddod i'r amlwg. Fel y mae pethau'n sefyll, mae'n aneglur pwy ddylai cyllidebau oedolion eu blaenoriaethu - gyda symiau sylweddol yn cael eu gwario ar Saesneg fel ail iaith, rhywfaint yn cael ei wario ar sgiliau galwedigaethol, a rhywfaint ar sgiliau sylfaenol. Beth sydd ddim gennym yw ffordd o flaenoriaethu grwpiau - a'r un amlwg yw rheini ifanc y mae eu cyrhaeddiad addysgol yn isel.

81 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'The adult skills gap: is falling investment in UK adults stalling social mobility?', 2019. Cyhoeddwyd yn ASSETS.PUBLISHING.SERVICE.GOV.UK.

82 Awdurdod cyfunol yw corff cyfreithiol wedi'i sefydlu drwy ddefnyddio deddfwriaeth genedlaethol sy'n galluogi grŵp o ddau gyngor neu fwy i gydweithio a chymryd penderfyniadau ar y cyd ar draws ffiniau cynghorau.

83 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'The adult skills gap: is falling investment in UK adults stalling social mobility?', 2019. Cyhoeddwyd yn ASSETS.PUBLISHING.SERVICE.GOV.UK.

Anweithgarwch economaidd a chynorthwyo'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Yn 2021, adroddodd 18.2% o oedolion, cyfanswm o 8.8 miliwn o bobl, nad oedd ganddynt gymwysterau o gwbl ... Rhieni yw llawer o'r bobl hyn, a gellir dadlau mai lefelau addysgol rhieni yw'r dangosydd pwysicaf oll wrth rag-weld canlyniadau i blant.

Er bod perfformiad addysgol cyffredinol, o ran ysgolion a symud ymlaen at addysg uwch wedi bod yn gwella, mae'r problemau dwys ar y gwaelod yn parhau. Er enghraifft, ychydig sydd wedi cael ei wneud i wella canlyniadau'r rheini sydd, yn 16 oed, heb y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i gaffael cymwysterau lefel uwch neu ddatblygu gyrfa. Yn 2021, adroddodd 18.2% o oedolion, sef 8.8 miliwn o bobl, nad oedd ganddynt gymwysterau o gwbl.⁸⁴ Mae'r "cynffon hir" hwn o gyflawniad isel yn gysylltiedig a thâl isel a dibyniaeth ar les. Rhieni yw llawer o'r bobl hyn, a gellir dadlau mai lefelau addysgol rhieni yw'r dangosydd pwysicaf oll wrth rag-weld canlyniadau i blant.

Ers y pandemig COVID-19, mae'r nifer o oedolion economaidd anweithredol o oedran gweithio yn y DU (hynny yw, y rheini nad ydynt yn gweithio nac yn chwilio

am waith) wedi cynyddu'n sylweddol, gan gyrraedd 9.3 miliwn o bobl neu 21.8% o'r boblogaeth oedran gweithio.⁸⁵ Mae oedolion heb gymwysterau neu â chymwysterau cyfyngedig iawn yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y grŵp hwn, gyda 53% o oedolion heb gymwysterau a 31% o oedolion heb gymwysterau o dan TGAU sy'n anweithredol yn economaidd, o'i gymharu â 11% o oedolion a graddau ac 16% â chymhwyster lefel A neu gyfatebol.⁸⁶ Er nad yw cyfran sylweddol o bobl economaidd anweithredol yn gweithio oherwydd eu bod yn astudio, yn gallu gweithio am resymau ieuchyd neu anabledd neu eu bod allan o'r gweithlu dros dro oherwydd cyfrifoldebau gofalu, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu gwastraff arwyddocaol o botensial dynol a phylu ar ragolygon twf y DU.

Mae gwaith diweddar gan y ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol a Chomisiwn Llwybrau at Waith wedi'i ganolbwyntio ar Barnsley yn awgrymu y byddai lleiafrif sylweddol o bobl economaidd anweithredol mewn gwirionedd yn hoffi gweithio ac maen nhw'n gallu gwneud hynny, pe byddai ganddynt y cymorth wedi'i deilwra'n gywir ac y gallent ganfod swydd sy'n gydnaws â'u sgiliau a'u hamgychiadau.^{87 88} Mae rhaglen Manceinion yn Gweithio'n Well: Gwaith ac Iechyd wedi ceisio rhoi'r ymagwedd hon ar waith, gan sefydlu cymorth iechyd a chyflogaeth gydlynol i alluogi cyfranogwyr i ddatrys rhwystrau rhag gwaith. Mae canlyniadau dechreuol wedi bod yn galonogol; erbyn diwedd Mawrth 2023 roedd dros 10,000 o gleientiaid – 46% o'r rheini oedd wedi cwblhau'r rhaglen gymorth – wedi canfod a chychwyn swydd.⁸⁹ Fodd bynnag, mae angen gwerthuso cynhwysfawr a hirdymor i ddeall ei effaith gyffredinol.

84 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Census 2021: data and analysis', 2021. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

85 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Labour market in the regions of the UK: November 2024', 2024. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

86 Gov.UK, 'Economic inactivity by qualification level', 2023. Cyhoeddwyd yn ETHNICITY-FACTS-FIGURES.SERVICE.GOV.UK.

87 Mae'r CSJ yn amcangyfrif y gallai 700,000 o bobl yn y grŵp hwn weithio yn yr amgylchiadau cywir, tra bo'r adroddiad Llwybrau at Waith yn amcangyfrif dros 4.5 miliwn. Yn amlwg mae'r ddau amcangyfrif, o reidrwydd, yn seiliedig ar amrediad cymhleth o ragdybiaethau. Gweler, 'Going Dutch: devolving employment support and adult education to tackle economic inactivity', 2024. Cyhoeddwyd yn CENTREFORSOCIALJUSTICE.ORG.UK.

88 Barnsley Metropolitan Borough Council, 'Pathways to work commission', 2024. Cyhoeddwyd yn BARNSELY.GOV.UK.

89 Greater Manchester Combined Authority, 'Working well: work and health programme & job entry: targeted support (JETS) evaluation', 2023. Cyhoeddwyd yn GREATERMANCHESTER-CA.GOV.UK.



Un o ganfyddiadau allweddol ein hadroddiad State of the Nation 2023 oedd y tebygolrwydd cynyddol o bobl ifanc o gefndir dosbarth gweithiol is yn mynd yn NEETau (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).^{90 91} Mae'r rhain yn debygol o fod y bobl lleiaf symudol yn gymdeithasol yn y wlad, ac eto i gyd nid ydynt wedi denu braidd dim sylw mewn polisi symudedd cymdeithasol blaenorol.⁹² Mae pobl sy'n NEET am fwy na chwe mis cyn 21 oed yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, ar gyflog isel, heb hyfforddiant, â record troseddol, ac yn dioddef o iechyd gwael ac iselder dros gwrs eu bywydau.⁹³ Mae hon yn her allweddol i lunwyr polisi.

Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn cyrchu Credyd Cynhwysol, sy'n golygu bod eu profiad o gymorth diweithdra yn cael ei reoli gan y gwasanaethau lles, fel arfer trwy Ganolfannau Gwaith. Mae profiadau o ansawdd y cymorth mewn Canolfannau Gwaith yn anghyson, gyda llawer o bobl ifanc NEET mewn perygl o gael eu lleoli mewn 'unrhyw swydd' yn hytrach na chanfod gwaith tymor hwy ystyrlon neu addysg bellach.⁹⁴ Os oes cynnig o hyfforddiant, yn aml mae'n un tymor byr, heb gynllun cydlynol ar gyfer gwella sgiliau'r person ifanc

hwnnw i'r lefel uchaf y gall ei chyflawni.⁹⁵ Mae'r diffyg cymorth wedi'i deilwra a'r ffocws ar gyflogaeth gyflym yn dylanwadu'n andwyol ar NEETau – nad ydynt yn gallu sicrhau swydd â rhagolygon i'r dyfodol – yn ogystal â chyflogwyr, sy'n derbyn ceisiadau gan garfan nad yw wedi'i hyfforddi ar gyfer gwaith.⁹⁶

Yn iachusol, mae'r llywodraeth wedi dechrau cydnabod maint y broblem, ac mae ei bapur gwyn Get Britain Working o Dachwedd 2024 yn amlinellu set uchelgeisiol o gynigion i fynd i'r afael ag anweithgaredd economaidd, gan gynnwys cyfuno Canolfannau Gwaith â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol, gwella cymorth ar faterion yn ymwneud â iechyd a datblygu gwarant ieuencid i sicrhau bod pawb 18 i 21 oed mewn addysg neu gyflogaeth.⁹⁷ mae'r papur gwyn yn fanwl am rôl arweinyddiaeth leol, yn enwedig mewn awdurdodau â meiri, a bydd llawer ohonynt yn treialu'r cynlluniau gwarant ieuencid ac anweithgaredd economaidd. Mae'r cynigion hyn i'w croesawu, ond byddant yn cymryd amser i'w gweithredu, ac mae cwestiwn a fydd y buddsoddiad o £240 miliwn a addewir yn ddigonol.

90 Adran Addysg, '[NEET age 16 to 24](#)', 2023, Cyhoeddwyd yn [EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK](#).

91 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[State of the Nation 2023: people and places](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn [SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK](#).

92 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, '[Young people not in education, employment or training](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn [ONS.GOV.UK](#)

93 EDSK, '[Finding a NEET solution](#)', 2022. Cyhoeddwyd yn [EDSK.ORG](#).

94 Institute for Employment Studies, '[Work in progress: interim report of the commission on the future of employment support](#)', 2023. Published yn [EMPLOYMENT-STUDIES.CO.UK](#).

95 Melanie Wilkes ac eraill, '[Working together: towards a new public employment service](#)', 2023. Y Sefydliad Ymchwil i Bolisi Cyhoeddus. Cyhoeddwyd yn [IPPR.ORG](#).

96 Katy Jones a Calum Carson, '[Universal credit and employers: exploring the demand side of UK active labour market policy](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn [MMU.AC.UK](#)

97 Department for Work and Pensions, '[Get Britain Working](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn [GOV.UK](#)

Ein barn yw y dylai'r llywodraeth, ac awdurdodau datganoledig, ystyried estyn unrhyw strategaeth gydlynol i bobl ifanc 21 i 24 oed yn ogystal. Ar hyn o bryd, rhennir cyfrifoldebau rhwng yr Adran Addysg, sy'n berchen ar y polisi addysg a hyfforddiant, yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n cynorthwyo pobl sy'n ddi-waith, ac Awdurdodau Lleol, sydd â dyletswydd statudol i annog, galluogi a chynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant. Mae'r rhaniad hwn yn peryglu rhagor o bobl ifanc yn syrthio trwy graciau darpariaethau statudol. Mae angen fframwaith arnom ar gyfer partneriaethau lleol, gan gynnwys addysg, cyflogwyr, y sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill â diddordeb, i ddarparu ymyriadau effeithiol, gan gynnwys cymorth arbenigol, cofleidiol i bobl ifanc i'w cynorthwyo yn ôl i mewn i hyfforddiant neu waith.

Fel y mae'r adran hon yn darlunio, mae datblygu talent yn ei ystyr ehangaf yn faes cyffrous. Mae rhai rhannau o'r system honno yn gweithio'n dda eisoes, mae eraill wedi cael eu gwella, ac mae nifer o gynlluniau addawol yn awgrymu beth all gael ei wneud ag ewyllys gwleidyddol, cyllid ac ymrwymiad at ddeall a mynd i'r afael ag anghenion lleol. Gyda rhywfaint o ddata ychwanegol a dadansoddiad o'r hyn sy'n gweithio, a chymorth gan lywodraeth genedlaethol a lleol, mae gennym gyfle i adeiladu ar y llwyddiannau hyn a chreu system wirioneddol strategol a chydlynol sy'n cynorthwyo pobl o bob cefndir i wneud y mwyaf o'u talentau.



Meithrin talent



**Mae ein hadroddiad
State of the Nation
2024 yn dangos bod
perfformiad disgybl
nodweddiadol
a ddosberthir fel
difreintiedig yn is nac
un disgybl nodweddiadol
nad yw'n hysbys ei
fod yn ddifreintiedig.**

Mae ein ffocws ar gyfleoedd symudedd cymdeithasol i bawb yn golygu y dechreuodd ein hargymhellion â'r economi a'n bod yn ystyried dewis eang o lwybrau mewn dysgu ôl-16, wedi'n cynorthwyo gan ddadansoddiad manwl o ganlyniadau, a strategaeth gynhwysfawr i gynorthwyo pobl heb gymwysterau i mewn i waith a hyfforddiant, yn hanfodol bwysig. Fodd bynnag, mae addysg cyn 16, sy'n cynnwys darpariaeth ysgolion a blynyddoedd cynnar, yn parhau'n bwysig iawn mewn gosod y sylfeini i bawb gael cychwyn da mewn bywyd a'r cyfle i gyflawni'u potensial dros eu hoes.

Mae hon yn agwedd arall o'r stori symudedd cymdeithasol lle mae sail ar gyfer optimistiaeth. Os ydym yn cymharu'r perfformiad addysgol presennol ag un degawd yn ôl, pan gafodd y strategaeth symudedd cymdeithasol gyntaf ei chyhoeddi, mae rhai cyflawniadau cadarn Gallwn hefyd wedi rhai canlyniadau calonogol

iawn i'r holl blant, wrth i ganran y plant sy'n cyflawni lefel dda o ddatblygiad erbyn 5 oed wella o 2012/13 i 2018/19 ar draws disgyblion Cinio Ysgol Am Ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys am Ginio ysgol Am Ddim.⁹⁸ Mae'r Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr, sy'n mesur gallu rhai 15-oed i ddefnyddio'u darllen, mathemateg a gwybodaeth gwyddoniaeth, yn dangos perfformiad Lloegr yn gwella'n ofalus hyd at 2018. Mae Lloegr wedi perfformio ar neu uwchlaw cyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithio a Datblygu Economaidd ar gyfer mathemateg, darllen a gwyddoniaeth, er bod sgoriau 2022 wedi gostwng ar draws y byd. Nid yw'r Alban a Chymru yn gwneud cystal, a'r gwahaniaethau yn cael eu hesbonio o ran cynnwys cwricwlwm, dyluniad cwricwlwm ac addysgeg.¹⁹⁹

Er gwaetha'r tueddiadau calonogol hyn mae rhai heriau yn parhau. Mae ein haroddiad State of the Nation 2024 yn dangos bod perfformiad disgybl ar gyfartaledd sy'n cael ei ddosbarthu'n ddifreintiedig yn is na disgybl ar gyfartaledd nad yw'n hysbys ei fod yn ddifreintiedig.¹⁰⁰ Cyn y pandemig, roedd y 'bwlch anfantais' – sef y bwlch mewn graddau rhwng myfyrwyr difreintiedig a'u cymheiriaid – yn cau, ond mae wedi lledu eto yn y blynyddoedd diweddar.¹⁰¹ Fodd bynnag, mae anawsterau wrth gymharu'r bwlch anfantais dros amser, oherwydd y trefniadau diogelu trawsnewid sy'n cwmparu cymhwyster Cinio Ysgol Am Ddim wrth i ni symud o fuddion lluosog hen ddull i Gredyd Cynhwysol, mae llawer mwy o blant yn awr yn gymwys ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim. Mae hyn yn golygu ei bod yn debyg nad yw'r plentyn cyffredin ar Ginio Ysgol Am Ddim heddiw mor ddifreintiedig â'r plentyn cyffredin ar Ginio Ysgol Am Ddim 10 mlynedd yn ôl.

98 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[State of the Nation 2023: people and places](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

99 Organisation for Economic Co-operation and Development, '[PISA 2022 results \(volume I\)](#)', 2022. Cyhoeddwyd yn OECD.ORG.

100 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, '[State of the Nation 2024: local to national. mapping opportunities for all](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

101 Y Sefydliad Polisi Addysg, '[Annual report 2024: disadvantage](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn EPI.ORG.UK.



O Ionawr 2024 ymlaen, roedd tua chwarter(24.6%) o ddisgyblion Lloegr yn gymwys ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim.¹⁰² Yng nghyfnod allweddol 2 (11 oed), roedd 44% o ddisgyblion difreintiedig (tua 90,000 o ddisgyblion) yn bodloni'r safon ddisgwyliedig ar gyfer darllen, ysgrifennu a mathemateg yn 2022 i 2023 o'u cymharu â 66% o ddisgyblion eraill (tua 310,000 o ddisgyblion).^{103 104}

Mae hyn yn golygu bod bwlch nodedig rhwng perfformiad disgyblion Cinio Ysgol Am Ddim o'i gymharu â rhai nad ydynt yn cael Cinio Ysgol Am Ddim, ond hefyd, mewn niferoedd amrwd, ni wnaeth tua 114,000 o ddisgyblion difreintiedig a 159,000 o ddisgyblion eraill ateb y safon disgwyliedig.¹⁰⁵ O ganlyniad, bydd unrhyw weithredu polisi sy'n cael ei dargedu yn bennaf ar gefndir economaidd cymdeithasol (megis Premiwm Disgyblion), trwy ddyluniad, yn anwybyddu'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n methu â bodloni'r safon disgwyliedig.

Mae hon yn enghraifft arall o'r tensiwn rhwng mesurau absoliwt a chymharol.

Trwy ganolbwyntio ar berfformiad cymharol grwpiau fesul cefndir economaidd cymdeithasol, efallai ein bod yn methu rhai canfyddiadau pwysig ar y rheini sy'n perfformio isaf. Gallwn hefyd fod yn methu â deall pam, ymhlith y mwyafrif difreintiedig, mae rhai'n perfformio'n dda er gwaethaf cefndir economaidd cymdeithasol tra nad yw eraill. Os yw grwpiau wedi eu diffinio'n llac a chyfartaleddau grŵp yn cael eu defnyddio'n anfeiriadol, mae'r 'gwirioneddol ddifreintiedig' yn mynd yn anweledig. Mae'r fath fesur uniongyrchol a dadansoddiad deuaidd yn aml yn cuddio mwy nag y mae'n ei ddatgelu. Fel y cyfeiriodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ddiweddar, mae pwyslais ar y mesur hwn yn unig hefyd yn eithrio adrodd ar unrhyw ganlyniadau eraill ar gyfer plant difreintiedig, sy'n cyfyngu ar ein dealltwriaeth a monitro o unrhyw effeithiau cadarnhaol ehangach o ymyriadau'r Adran Addysg. Yn ogystal, nid yw'r Adran Addysg wedi amlinellu sut a phryd mae'n bwriadu lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, gan gyfyngu'n sylweddol ar unrhyw asesiad o gynlluniau presennol a rhai'r dyfodol.¹⁰⁶

102 Adran Addysg, '[Schools, pupils and their characteristics](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn [EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK](#).

103 Fel arfer, diffinnir disgyblion difreintiedig fel arfer yn y modd hwn: y rheini sy'n gofrestredig yn gymwys ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim ar unrhyw adeg yn y 6 blynedd diwethaf, plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol neu wedi gadael gofal Awdurdod Lleol yn Lloegr a Chymru trwy fabwysiadu, gorchymyn gwarchodaeth arbennig, gorchymyn preswyllo neu orchymyn trefniadau plant.

104 Yn 2023, ystyriwyd bod 30% o ddisgyblion ar ddiwedd CA2 yn ddifreintiedig.

105 Gov.UK. "Cyrhaeddiad fesul nodweddion disgyblion" o '[gyrhaeddiad Cyfnod allweddol 2](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn [EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK](#)

106 Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, '[Improving educational outcomes for disadvantaged children](#)', 2024. Cyhoeddwyd yn [NAO.ORG.UK](#).

Rôl daearyddiaeth ac ysgolion

Mae hon yn ardal arall o symudedd cymdeithasol lle mae daearyddiaeth yn ffactor arwyddocaol. Mae ardaloedd o'r wlad lle mae gwell perfformiad addysg wedi bod yn neilltuol o gryf, megis yn Llundain. Cafodd llai na chwarter (22%) o blant a oedd yn derbyn Cinio Ysgol Am Ddim yn Llundain fewnol bump neu ragor o raddau A*-C yn TGAU neu'n cyfateb iddynt (gan gynnwys Saesneg a mathemateg) yn 2002. Yn 2013, roedd hyn wedi codi i bron hanner (48%).¹⁰⁷ Yn 2000-03, roedd gan Lundain 9% yn llai wedi'u graddio'n "Dda" neu'n "Rhagorol" gan Ofsted na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan Lundain yn awr ganran uwch o ysgolion wedi'u graddio'n "Rhagorol" gan Ofsted nac unrhyw ranbarth arall yn y DU.^{108 109 110}

Mae angen esboniad brys ar y bwch sylweddol mewn perfformiad academiaidd rhwng Llundain a rhannau eraill o'r wlad. Mae llawer o ffactorau posibl, yn amrywio o ddemograffeg Llundain yn newid (gan gynnwys cysylltiadau â gwerthoedd, teuluoedd a diwylliant), i drefniadau sefydliadol (Her Llundain ar y naill law, academiâu newydd ac ysgolion rhydd ar y llall), ansawdd yr addysgu a'r dysgu (a'r capasiti i ddenu'r athrawon gorau).¹¹¹

Mae ein hadroddiad State of the Nation 2024 yn dangos pocedi o storïau llwyddiant y tu allan i Lundain hefyd. Yn 5 oed, disgyblion cymwys ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim yn Llundain, Swydd Lincoln a Gorllewin Canoldir Lloegr yw'r rhai mwyaf tebygol o gyflawni lefel dda o ddatblygiad.¹¹² Yn 11 oed, disgyblion cymwys ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim yn Llundain, Tees Valley a Durham oedd y mwyaf tebygol o fodloni'r safon ddisgwyliedig mewn

darllen, ysgrifennu a mathemateg o'r holl ranbarthau.¹¹³ Mewn cyferbyniad, roedd disgyblion yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Dyfnaint Gorllewin Swydd Efrog yn rhai o'r rheini oedd yn lleiaf tebygol o gyrraedd safon dda o ddatblygiad yn 5 oed, tra bod disgyblion yng Nghernyw, Cumbria, Swydd Gaerhirfryn a Swydd Gaer ymhlith y lleiaf tebygol o gyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Saesneg a mathemateg TGAU.¹¹⁴ Mae'r ardaloedd lle mae perfformiad yn gyson isel yn aml, mewn trefi a dinasoedd ôl-ddiwydiannol, trefi glan môr ac ardaloedd gwledig.

Gan dynnu ar fodelau rhyngwladol, yn enwedig y rheini yn yr Unol Daleithiau, rydym wedi ystyried tystiolaeth ar sut mae ymarferion ysgol gwahanol yn gwella canlyniadau mewn ardaloedd sy'n tanberfformio. Mae ysgolion siarter yr Unol Daleithiau wedi bod yn bwnc llawer o drafod ers eu cyflwyno yn yr 1990au cynnar.¹¹⁵ Maen nhw wedi'u cyllido'n gyhoeddus ond wedi'u rheoli'n breifat a chawsant eu sefydlu i gynnig mwy o opsiynau ar gyfer addysgu – yn enwedig trwy hyrwyddo dulliau addysgu a dysgu arloesol. Canfu astudiaeth genedlaethol ddiweddar yn gwerthuso cynnydd academiaidd myfyrwyr ysgolion siarter yn yr Unol Daleithiau fod gan y myfyriwr ysgol siarter nodweddiadol sgiliau llythrennedd a rhifedd oedd yn drech na'u cymheiriaid yn mynychu ysgolion mwy traddodiadol.¹¹⁶ Gall rhai o'r ysgolion hyn, yn enwedig y rheini a ddisgrifir ag ymagwedd "dim esgusodion", fod yn neilltuol effeithiol wrth wasanaethu plant o deuluoedd incwm isel a chefnidiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd.¹¹⁷

107 Jo Blanden ac eraill, 'No magic bullet in London schools' success. Just years of steady improvements in quality', 2015. Cyhoeddwyd yn IFS.ORG.UK.

108 John Lowe, 'The London schools revolution', 2015. Cyhoeddwyd yn PROSPECTMAGAZINE.CO.UK.

109 Jo Blanden ac eraill, 'No magic bullet in London schools' success. Just years of steady improvements in quality', 2015. Cyhoeddwyd yn IFS.ORG.UK.

110 Ofsted, 'State-funded English schools inspections and outcomes as at 31 December 2023', 2024. Cyhoeddwyd yn GOV.UK

111 Gellir canfod adroddiad Adran Addysg 2020 ar y mater hwn yn: 'Examining the London advantage in attainment'.

112 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2024: local to national, mapping opportunities for all', 2024 and 'State of the Nation 2023: people and places', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

113 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2023: people and places', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

114 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'State of the Nation 2023: people and places', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

115 The Hamilton Project, 'Learning from the successes and failures of charter schools', 2012. Cyhoeddwyd yn HAMILTONPROJECT.ORG.

116 CREDO, 'As a matter of fact: the national charter school study III 2023', 2023. Cyhoeddwyd gan NCSS3.STANFORD.EDU.

117 Mae'r sector ysgolion siarter wedi tyfu'n sylweddol dros y 15 mlynedd ddiwethaf yn yr Unol Daleithiau, o ran ysgolion a myfyrwyr. Mae rhai lleoedd wedi cymryd at ysgolion siarter yn neilltuol o frwd: Yn Ninas Efrog Newydd yn unig, mae 14% o fyfyrwyr yn mynychu un o 271 ysgol siarter yn y ddinas.

Mae'r DU hefyd yn cynnig enghreifftiau o ble mae ysgolion sy'n mabwysiadu'r fath fodelau yn arddangos canlyniadau addysgol da i'w disgyblion. Er hynny, nid yw'r enghreifftiau hyn wedi'u lledaenu'n wastad ar draws y wlad eto - ac mae ychydig o ymchwil neu werthusiad annibynnol i ddangos ble mae cynnig wedi bod ar yr ymagweddau hyn ond nid ydynt wedi gweithio.


O bersbectif symudedd cymdeithasol, rydym yn dadlau bod yn rhaid canfod datrysiadau gwell ar gyfer y lleoedd hyn a thanberfformiad addysgol cyson fod yn flaenoriaeth. Pan ddown i chwilio am ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth, fodd bynnag, rydym yn canfod yr un problemau ag rydym wedi eu disgrifio mewn meysydd polisi eraill. Er gwaethaf cyfres o ddatrysiadau seiliedig ar ardal, yn estyn o ragoriaeth mewn Dinasoedd i Barthau Gweithredu Addysg ac Ardaloedd Cyfle, nid oes gwerthuso digonol ac nid oes consensws am ddatrysiadau.

Nid oes amheuaeth fod sefydliadau yn chwarae rôl, megis recriwtio arweinyddion ac athrawon - ac amrediad o ffactorau eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd i ennill dealltwriaeth well o'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y mae'r ymyriadau hyn yn digwydd ynddynt. Yr anhawster yw sut i wneud hyn heb ddymchwel i gyfres o esgusodion dros gyflawniad a pherfformiad isel. Mae hon yn her lle rydym yn gobeithio y bydd ein hymchwiliadau dwfn i symudedd cymdeithasol fesul lle yn helpu. Byddant yn edrych nid yn unig ar gyd-destun economaidd, ond ar ffactorau allweddol eraill sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol.



Blynyddoedd cynnar a chymorth teulu.

Mae heriau tebyg yn bodoli o gwmpas blynyddoedd cynnar. Mae hwn yn faes lle mae'r dystiolaeth yn arddangos yn gadarn bod canlyniadau addysgol cynnar yn darogan canlyniadau diweddarach. Er enghraifft, mae lefelau is na'r disgwyl o 'fod yn barod am yr ysgol' yn 3 oed ac asesiad gan athro o sgiliau llythrennedd a rhifedd yn 5 oed fel ei gilydd yn broffwydol o fethiant i gyflawni gradd 4 neu uwch mewn TGAU Saesneg a mathemateg yn 16 oed, hyd yn oed ar ôl safoni ar gyfer cefndir teuluol a nodweddion unigol.¹¹⁸ Ysbrydolodd hyn gynllun peilot ein hymgyrch ein hunain ar gyfer sgiliau rhianta It's Child's Play, sy'n darparu adnoddau ymarferol i rieni a ffyrdd hawdd o ymgysylltu â phlant i'w helpu i fod yn barod am yr ysgol.¹¹⁹



Er bod corff y dystiolaeth am ymarfer effeithiol yn eglurach yn y blynyddoedd cynnar na mewn meysydd polisi eraill, gwelwyd yr un broblem o gorddi polisiâu ac anghysondeb yma. Mae arbenigwyr yn dadlau nad yw'r hyn rydyn ni'n ei wybod am ymyriadau effeithiol wedi'i bwytho'n ddigonol trwy'r polisi.¹²⁰ Nid yw polisi'r blynyddoedd cynnar wedi cael ffocws eglur

yn ddigonol ar ddatblygu plant yn dda o fewn gofal plant a rhaglenni cymorth teuluoedd.¹²¹

Enghraifft dda y gallwn ddysgu oddi wrthi yw Cychwyn Cadarn. Roedd hwn yn bolisi cymdeithasol uchelgeisiol, arweiniol y bwriadwyd iddo fynd i'r afael â thlodi plant. Fodd bynnag, mae nifer o werthusiadau wedi amlygu ei berfformiad cymysg ar draws amrediad o ganlyniadau. Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr amrediad eang o anghenion y ceisiodd Cychwyn Cadarn fynd i'r afael â nhw, ynghyd â'i nodau ac amcanion oedd yn cystadlu. Golygai ei uchelgais, ei gwmpas eang a'i hyblygrwydd ei fod wedi newid ffocws a chwmpas yn sylweddol wrth i'r rhaglen gael ei gweithredu Yn ogystal, fel y dangosodd ein hadolygiad tystiolaeth gyflym o Gychwyn Cadarn, cafodd deall ei effaith ei danseilio gan werthuso camarweiniol a chasglu data gwael o'r cychwyn.¹²² Ar ôl ethol y llywodraeth glymblaid yn 2010, nid oedd cyllid ar gyfer Cychwyn Cadarn wedi'i ddiogelu mwyach a chafodd cyllid ar gyfer pob ffurf o ganolfannau plant ei leihau'n sylweddol o dan hon a'r llywodraethau Ceidwadol dilynol.¹²³

Gan ddefnyddio dulliau economaidd modern, fodd bynnag, mae ymchwil diweddarach wedi bwrw golau newydd ar effeithiau tymor hwy Cychwyn Cadarn. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wedi mesur effaith byw "yn agos at Gychwyn Cadarn" ar gyrhaeddiad addysgol. Gwellodd mynediad at ganolfannau Cychwyn Cadarn rhwng oedrannau 0 a 5 gyflawniad addysgol plant. Yn benodol, perfformiodd plant oedd yn byw o fewn pellter byr (2.5 cilomedr) i ganolfan Cychwyn Cadarn ar gyfer eu 5 mlynedd gyntaf 0.8 gradd yn well yn un o'u haroliadau TGAU. Yn ogystal, erbyn oedran uwchradd roedd hi'n llai tebygol cofnodi bod gan blant o'r fath anghenion addysgol arbennig ac anabledau, gan gynnwys bod yn llai tebygol o gael Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.¹²⁴

118 Lee Elliot Major a Sam Parsons, 'The forgotten fifth: examining the early education trajectories of teenagers who fall below the expected standards in GCSE English language and maths examinations at age 16 – CLS Working Paper 2022/6', 2022. Cyhoeddwyd yn CLS.UCL.AC.UK.

119 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'It's Child's Play'. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

120 Tammy Campbell, 'Evidence submission: review of early years', 2023. Cyhoeddwyd yn EPI.ORG.UK.

121 Gwnaeth cyfarwyddwr cyntaf Uned Cychwyn Cadarn yn 1999, Naomi Eisenstadt, y sylwadau hyn wrth ymddangos yn westai ar bodlediad Social Mobility Talks.

122 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Family and parenting programmes: rapid evidence assessment', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIALMOBILITY.INDEPENDENT-COMMISSION.UK.

123 Sutton Trust, 'Stop start: survival, decline or closure? children's centres in England', 2018. Cyhoeddwyd yn SUTTONTRUST.COM.

124 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 'The short- and medium-term impacts of Sure Start on educational outcomes' Cyhoeddwyd yn IFS.ORG.UK.

Mae'r gwaith hwn wedi cael ei groesawu gan lawer yn dystiolaeth o'r angen i adfer rhaglen Cychwyn Cadarn, ond mae'n bwysig bod yn eglur am yr hyn mae'r ymchwil yn ei ddweud ac nad yw'n ei ddweud wrthym mor belled. Mae'n ymddangos ei fod yn rhoi tystiolaeth dda o gysylltiad achosol rhwng cam cyntaf Cychwyn Cadarn (rhaglenni lleol) a gwelliannau a gynhaliwyd o ran cyflawniad addysgol, yn enwedig i blant nad ydynt yn Wyn ac i blant o bob ethnigrwydd sy'n gymwys am Ginio Ysgol Am Ddim. Fodd bynnag, mae'n parhau yn aneglur pa elfennau penodol arweiniodd at hyn gan fod amrywiadau yn y rhaglenni a gyflawnwyd ar draws rhannau gwahanol o'r wlad, weithiau hyd yn oed o fewn ardaloedd Awdurdodau Lleol. Mae angen rhagor o ymchwil i ganfod y rhesymau penodol dros lwyddiant y gellir eu dyblygu.

Cafodd Cychwyn Cadarn ei ddisodli yn y pen draw, yn rhannol gan Ganolfannau Teuluol, oedd ag ymagwedd wedi'i thargedu'n fwy wedi'i chyflawni ar raddfa lai o lawer, ond gweithiodd gyda theuluoedd ar draws amrediad oedran ehangach, a chafodd ei gynorthwyo gan fodel gwahanol o ran cyllid a phartneriaeth. Er bod y model Canolfannau Teuluol wedi cael ei werthuso i ddechrau a'i fod wedi dangos arwyddion addawol, nid yw wedi cynhyrchu digon o dystiolaeth o welliannau hirdymor mewn sgiliau gwybyddol ac anwybyddol plant. Fel y nodwyd, mae'r sgiliau hyn ymhlith dangosyddion allweddol canlyniadau datblygiadol cynnar plentyn a dylai felly fod yn ganolog i bob polisi yn y blynyddoedd cynnar a chymorth teuluoedd.¹²⁵

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw gofal plant ffurfiol bob amser o fudd i bob plentyn o ran canlyniadau, o bosibl oherwydd materion ynghylch ansawdd a ffocws.¹²⁶

Fel y mae llawer o arbenigwyr yn pwysleisio, bydd llwyddiant ehangu gofal plant yn dibynnu ar a yw'r ddarpariaeth yn cofleidio'r 'hyn sy'n gweithio' mewn datblygiad plant, gan gynnwys partneriaethau â rhieni a gweithlu wedi'i hyfforddi'n briodol.



¹²⁵ Flavio Cunha ac eraill, 'Chapter 12 interpreting the evidence on life cycle skill formation', 2006. Cyhoeddwyd yn SCIENTEDIRECT.COM.

¹²⁶ Maria Lyons, 'Universal childcare: is it good for children?', 2024. Cyhoeddwyd yn CIVITAS.ORG.UK.

Rôl teuluoedd

Problem drawsdoriadol, a godir yn aml o ran blynyddoedd cynnar ond sy'n rhedeg ar draws ein holl brif themâu, yw rôl amgylcheddau teuluol cefnogol a strwythuredig yn natblygiad sgiliau gwybyddol ac anwybyddol plentyn, nid mewn blynyddoedd cynnar yn unig ond trwy gydol addysg yn ogystal.¹²⁷ Mae angen i ni wybod mwy am yr amgylchiadau sy'n eistedd y tu ôl i gyflawniad isel a thanberfformiad addysgol, ac i ba raddau y gall rolau teuluoedd gael eu cryfhau.

Mae nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar amgylchedd dysgu'r cartref, wedi'u hamlygu mewn adroddiad diweddar arall gan yr IFS.¹²⁸ Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar deuluoedd ac anghydraddoldebau, gan gynnwys cymhariaeth o wahanol ymddygiadau partneru a rhianta graddedigion a'r rhai sydd heb radd yn y DU. Nododd yr adroddiad "nodwedd a amlygir yn anaml yn y DU ynghylch ffurf teuluoedd yw i ba raddau y mae plant yn cael eu geni i rieni nad ydynt yn byw gyda'i gilydd adeg eu geni".

Mae taer angen dealltwriaeth gadarnach o lawer o'r newidiadau mewn teuluoedd sydd wedi digwydd, o ran cefndir economaidd gymdeithasol ac o ran daearyddiaeth, a'r ffactorau - megis disgwyliadau diwylliannol a chyfle economaidd - sy'n eu hesbonio.



Yr ardaloedd sydd â'r niferoedd uchaf o "enedigaethau heb bartner" yw, i raddau helaeth, y rheini sydd â'r lefelau isaf o gyrhaeddiad economaidd.¹²⁹ Mae taer angen gwell ddealltwriaeth o'r newidiadau mewn teuluoedd sydd wedi digwydd, o ran cefndir economaidd gymdeithasol ac o ran daearyddiaeth, a'r ffactorau – megis disgwyliadau diwylliannol a chyfle economaidd – sy'n eu hesbonio. Mae'n ymddangos yn annhebygol iawn fod hyn yn dal yr allwedd i ddeall llawer iawn am y canlyniadau anghyfartal i blant a'r achosion o ansymudedd rhwng y cenedlaethau.

¹²⁷ Beng Huat See a Stephen Gorard, 'The role of parents in young people's education—a critical review of the causal evidence', 2015. Cyhoeddwyd yn TANDFONLINE.COM.

¹²⁸ Kathleen Kiernan ac eraill, 'Families and inequalities', 2022. Cyhoeddwyd yn rhan o Adolygiad Deaton y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o Anghydraddoldebau yn IFS.ORG.UK

¹²⁹ Kathleen Kiernan ac eraill, 'Families and inequalities', 2022. Cyhoeddwyd yn rhan o Adolygiad Deaton y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o Anghydraddoldebau yn IFS.ORG.UK



Heb ddealltwriaeth helaethach o deuluoedd a pholisi tuag at deuluoedd, mae ymyriadau eraill yn brin o gyd-destun. Bydd sut mae ymyriadau megis ehangu gofal plant yn effeithio ar unrhyw blentyn unigol yn dibynnu ar ffactorau gwahanol lluosog, gan gynnwys amgylchiadau teulu a dewisiadau. Er enghraifft, mae rhieni sengl, yn enwedig y rhieni o gefndiroedd difreintiedig, yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau rhag gweithio a chael cymorth. Felly, i rai teuluoedd, gofal plant fforddiadwy a hygyrch yw'r ateb. I deuluoedd eraill, gall yr ateb edrych yn eithaf gwahanol. Dylai darpariaeth ar gyfer teuluoedd ganiatáu am hyblygrwydd a chyfuniad o gymorth teulu yn y cartref a'r tu allan i'r cartref. Mae hyn yn groes i'r naratifau gwleidyddol amlwg presennol, sy'n eiriol dros ymagwedd un maint i bawb at gymorth teuluol.

Rydym yn bryderus nad yw modelau presennol sy'n canolbwyntio ar ehangu gofal plant wedi'i gyllido gan y wladwriaeth yn mynd yn ddigon pell i gynorthwyo teuluoedd, o ystyried cyflog ar gyfartaledd i bâr o'r DU, mae costau gofal plant net yn cyfrif am chwarter incwm aelwyd

ar gyfartaledd.¹³⁰ Mae amrywiaeth o gynigion ar gyfer integreiddio treth, lles, gofal plant, cymorth teulu a chymorth cysylltiedig i deuluoedd ac am ganolbwyntio hwn yn ystod yr amser pan fydd teuluoedd o dan y straen mwyaf, sef pan fydd plant yn ifanc. Ein barn yw y dylai pob ymdrech i wella symudedd cymdeithasol ac estyn cyfleoedd gael ei ategu gan bolisi pwrpasol ac integredig wedi'i ganolbwyntio ar deuluoedd.¹³¹ Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o natur newidiol teuluoedd, y ffactorau sy'n ysgogi'r newidiadau hyn, a'r amrediad llawn o ymyriadau a mesurau posibl.

Megis ar gyfer y meysydd eraill rydym wedi'u trafod, mae deall yr heriau mae teuluoedd yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwahanol, a datblygu cymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r heriau hyn, yn hollbwysig. Gan adeiladu ar ein gwaith presennol, bydd y SMC yn cynnal rhagor o ddadansoddiadau o effaith amgylchedd y teulu a daearyddiaeth ar ganlyniadau plant. Bydd hyn yn cynnwys agweddau seiliedig ar le a daearyddiaeth o ffurfiant teuluoedd yn ogystal â chyflawniad addysgol, a'r ffactorau ehangach sy'n eu llunio.

130 World Economic Forum, 'These countries have the highest childcare costs in the world', 2023. Cyhoeddwyd yn WEFORUM.ORG.

131 Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 'Give families the credit', 2024. Cyhoeddwyd yn CENTREFORSOCIALJUSTICE.ORG.UK.

Y ffordd ymlaen



Yn y ddogfen Cenhedlaeth Arloesi rydym wedi egluro'r gwahanol ymagweddau gwahanol at fesur symudedd cymdeithasol, yr heriau sy'n wynebu'r cysyniad o symudedd cymdeithasol yn ddamcaniaethol ac yn ymaferol, a'n cynigion ar gyfer ymagwedd fwy cydlynol at wella cyfleoedd i bawb.

Fel rydym wedi ei awgrymu, mae llawer o feysydd - o faterion penodol megis data cyrchfan gwael i ddysgwyr galwedigaethol i themâu troswaol megis prinder setiau data lefel aelwyd - lle mae angen rhagor o ddata a dadansoddiad arnom i ddeall yn llawn beth sy'n digwydd ar lawr gwlad a'r hyn sy'n ysgogi'r anghydraddoldeb canlyniadau i grwpiau gwahanol ac mewn lleoedd gwahanol. Rydym yn gobeithio y bydd y bylchau hyn yn dechrau cael eu llenwi, gan alluogi sgwrs fwy gwybodus a manwl. Mae'r SMC yn cynllunio rhaglen eang o ymchwil ac ymgysylltu, gan gynnwys prosiect ar rôl yr economi mewn gwella symudedd cymdeithasol, ymchwil i ganfyddiadau o symudedd cymdeithasol, a rhaglen o ymchwiliadau dwfn i ardaloedd a oedd â symudedd cymdeithasol uchel ac isel.

Yn y cyfamser, mae llawer y gall gwneuthurwyr polisi ei wneud ar bob lefel. Mae ysgogi twf economaidd a gwella cyfleoedd marchnad lafur, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae symudedd cymdeithasol yn wannach, yn flaenoriaeth. Ochr yn ochr â hyn, ac wedi'i gysylltu'n agos ag ef, mae'n rhaid i ni ddatblygu nifer fwy o lwybrau i bobl ifanc sydd â diddordebau a chefnidiroedd gwahanol i wella'u sgiliau ac ennill swyddi sydd â rhagolygon teilwng. Ac mae'n rhaid

gwneud llawer mwy i gynorthwyo pobl heb gymwysterau o gwbl, yn enwedig y rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae'r llywodraeth wedi cychwyn rhywfaint o weithredu newydd yn y maes hwn, gan gynnwys creu Skills England, yr Ardoll Twf a Sgiliau a'r Adolygiad Cwricwlwm ac Asesiad, ochr yn ochr â'i genadaethau twf a chyfle. Yn anochel, mae'n rhy fuan gwybod sut y bydd y cynlluniau hyn yn arwain at drawsffurfiad go iawn ar lawr gwlad.

Fodd bynnag, nid oes angen arwain newid o'r brig yn unig - ac fel yr eglura ein dadansoddiad, mae'r natur seiliedig ar leoedd o lawer o'r heriau rydym wedi eu hamlinellu yn golygu nad yw dull un maint i bawb yn briodol yn aml. Mae hwn yn gyfle euraidd i wneuthurwyr polisi lleol, gan gynnwys gweinyddiaethau datganoledig a'r rheini sy'n paratoi i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol. Byddem yn annog y fath wneuthurwyr polisi i sefydlu amrediad eang o bartneriaethau a gweithio gyda nhw i ddatblygu ymagweddau arloesol - wrth sicrhau bod unrhyw raglenni newydd yn cael eu gwerthuso'n drwyadl er mwyn nodi a rhannu aferion gorau.

Ein nod tymor hir yw cyrraedd man lle mae llwybrau lluosog at lwyddiant i gynorthwyo amrediad ehangach o bobl i ddatblygu'u galluoedd a'u doniau unigol. Bydd hyn, yn ei dro, yn caniatáu i ni fynd i'r afael ag anfanteision sy'n bodoli ers tro, datgloi cyfleoedd helaethach a chreu economi fywiog, arloesol i'r cenedlaethau sydd i ddod.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith hon.